

# Ymgynghoriad ar ganllawiau ar gyfer presgripsiynwyr fferyllol: adroddiad dadansoddi

## Cynnwys

Crynodeb gweithredol .....	2
Cefndir .....	2
Prif faterion a gododd yn yr ymatebion.....	2
Yr ymgynghoriad: yr hyn a wnaethom .....	5
1. Cefndir polisi .....	5
Dadansoddiad o'r ymatebion a'r gweithgareddau ymgysylltu: yr hyn a glywom .....	6
2. Prif feysydd ar gyfer presgripsiynu diogel ac effeithiol.....	6
3. Amgylchiadau lle dylid ystyried a yw'n briodol presgripsiynu'n ddiogel .....	11
4. Presgripsiynu a chyflenwi.....	16
5. Mesurau diogelwch ar gyfer presgripsiynu o bell.....	19
6. Effaith y cynigion .....	22
7. Effaith y cynigion ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol .....	27
Atodiad 1: Crynodeb o'n cynigion .....	30
Atodiad 2: Ynghylch yr ymgynghoriad .....	32
Atodiad 3: Ein dull dadansoddi ac adrodd .....	33
Atodiad 4: Proffil ymatebwyr: gan bwy y clywom.....	35
Atodiad 5: Sefydliadau.....	39
Atodiad 6: Cwestiynau'r ymgynghoriad.....	41

# Crynodeb gweithredol

## Cefndir

Rhwng Mawrth a Mehefin 2019, gofynnwyd am farn ar ganllawiau drafft i gefnogi presgripsiynwyr fferyllol i gyrraedd ein safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol. O ystyried y cynnydd yn nifer y presgripsiynwyr fferyllol, a gyrwyr dylanwadol eraill (er enghraifft technolegau newydd sy'n cael eu defnyddio i bresgripsiynu (o bell ac ar-lein)), credwn fod angen cyhoeddi canllawiau i alluogi presgripsiynwyr fferyllol i roi gofal diogel ac effeithiol wrth bresgripsiynu.

Mae'r canllawiau'n nodi'r meysydd allweddol y dylai presgripsiynwyr fferyllol eu hystyried wrth bresgripsiynu, i sicrhau gofal diogel ac effeithiol. Yn fwy penodol, gwnaethom geisio barn ar:

- y meysydd allweddol ar gyfer presgripsiynu diogel ac effeithiol
- yr amgylchiadau pan ddylid ystyried a yw'n briodol presgripsiynu'n ddiogel
- presgripsiynu a chyflenwi
- mesurau diogelu ar gyfer presgripsiynu rhai categorïau penodol o feddyginiaethau o bell, a'r
- effaith y gallai'r canllawiau hyn ei chael ar amrywiol grwpiau rhanddeiliaid

Gwnaethom gyflawni'r ymgynghoriad trwy arolwg ar-lein a chynnal digwyddiad bord gron rhanddeiliaid a thri grŵp ffocws i gleifion yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Cafwyd **284** o ymatebion i'r arolwg ar-lein: **37** o ymatebion gan sefydliadau, **247** gan unigolion (**154** gan bresgripsiynwyr). Cafwyd **chwe** ymateb ychwanegol hefyd nad oeddent yn dilyn strwythur yr arolwg: **dau** gan unigolion a **phedwar** gan sefydliadau. Mynychodd **naw** rhanddeiliad ein digwyddiad bord gron a mynychodd **58** o unigolion ein grwpiau ffocws ar gyfer cleifion.

## Prif faterion a gododd yn yr ymgynghoriad

### Barn gyffredinol

Gofynnodd yr ymgynghoriad am farn ar ein canllawiau, yn benodol y meysydd, y ffactorau a'r amgylchiadau allweddol y dylai presgripsiynwyr fferyllol eu hystyried wrth bresgripsiynu'n ddiogel ac yn effeithiol. At ei gilydd, roedd ymatebwyr yn cefnogi ein cynigion ac yn falch y byddai arweiniad ar gael mewn mater sy'n dod yn fwyfwy amlwg mewn ymarfer fferylliaeth. Manteisiodd rhai ymatebwyr ar y cyfle i fyfrio ar rolau a chyfrifoldebau cynyddol eang presgripsiynwyr fferyllol mewn gofal iechyd yn fwy cyffredinol ac roeddent yn teimlo y byddai'r canllawiau'n werthfawr o ran deall yn well yr hyn a ddisgwylir ganddynt. Ond roedd rhai pryderon y gallai ein cynigion ar ofynion i gyrchu a rhannu cofnodion cleifion danseilio presgripsiynwyr fferyllol a'u gallu i ddefnyddio eu barn broffesiynol. Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn bod y canllawiau'n canolbwyntio gormod ar fferylliaeth gymunedol ac yn cwestiynu sut y byddai'r canllawiau'n berthnasol i bresgripsiynwyr fferyllol sy'n gweithio mewn lleoliadau eraill fel timau amlddisgyblaethol ysbytai a charchardai. Tynnodd rhai ymatebwyr sylw hefyd at ein cynigion ar bresgripsiynu o bell yn gyffredinol. Er bod rhai ymatebwyr yn erbyn presgripsiynu o bell o egwyddor, roedd eraill yn teimlo y dylai fod y tu allan i gylch gwaith presgripsiynwyr fferyllol annibynnol yn gyfan gwbl. Gwnaeth ymatebwyr lawer o awgrymiadau hefyd ar sut y gellid cryfhau ein cynigion a lle roedd angen eglurder pellach. Roedd lleiafrif bach hefyd o'r farn bod y canllawiau'n ddiangen o ystyried y gorgyffwrdd â'r canllawiau presennol gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) a'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (RPS), er enghraifft.

## **Barn ar y prif feysydd o ran presgripsiynu diogel ac effeithiol**

Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr yn teimlo bod y canllawiau'n nodi'r holl feysydd angenrheidiol ar gyfer sicrhau gofal diogel ac effeithiol. Roedd y meysydd a ddenodd ymateb ffafriol yn cynnwys pwysigrwydd mynegi pryderon a gofyn bod presgripsiynwyr fferyllol yn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth ddiweddaraf angenrheidiol ar gyfer lefel eu cymhwysedd. Fodd bynnag, roedd rhai yn teimlo bod gorgyffwrdd â chanllawiau sydd eisoes ar gael gan sefydliadau eraill. Er eu bod yn cytuno â llawer o'r meysydd allweddol, galwodd rhai ymatebwyr hefyd am fwy o eglurder mewn meysydd penodol fel presgripsiynu a chyflenwi a phresgripsiynu o bell. Tynnodd ymatebwyr eraill sylw at feysydd newydd posibl nad oedd y canllawiau wedi'u hystyried a chyflwynwyd awgrymiadau ar sut y gellid gwella neu ehangu'r meysydd presennol.

## **Barn ar amgylchiadau lle dylid ystyried a yw'n briodol presgripsiynu'n ddiogel**

Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr yn cytuno â'r amgylchiadau a nodir yn y canllawiau o ran pryd y mae'n rhaid i bresgripsiynydd fferyllol benderfynu a all bresgripsiynu'n ddiogel. Tynnodd llawer o ymatebwyr sylw hefyd at amgylchiadau nad oeddent wedi'u cynnwys yn y canllawiau, er enghraifft pan fo'r claf yn agored i niwed neu heb y gallu i wneud penderfyniad gwybodus am lefel ei ofal, pan fo meddyginiaeth wedi'i chychwyn gan barti arall, a phan fo person o'r tu allan i'r DU. Roedd yr anawsterau o ran rhannu gwybodaeth a chyrchu cofnodion meddygol mewn lleoliadau fferyllol nad ydyn nhw'n rhai cymunedol hefyd yn thema a gododd yn aml.

## **Barn ar bresgripsiynu a chyflenwi**

Cafwyd ymateb amrywiol i'n cynigion ar yr amgylchiadau lle gallai fod angen presgripsiynu a chyflenwi. Er bod mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno y dylid cadw'r presgripsiynu cychwynnol ar wahân i gyflenwi meddyginiaethau, nododd eraill nifer o amgylchiadau eithriadol ychwanegol y gellid eu cynnwys. Roed y rhain yn cynnwys pan fo argyfwng, pan nad oes presgripsiynydd arall ar gael megis mewn ysbytai a rhai mathau o gyflyrau e.e. mân anhwylderau, brechiadau teithio, ac ati.

## **Barn ar fesurau diogelwch o ran presgripsiynu rhai meddyginiaethau penodol o bell**

Roedd cyfran ychydig yn uwch o'r farn nad oedd unrhyw fesurau diogelwch eraill y dylid eu rhoi ar waith i sicrhau bod rhai meddyginiaethau'n cael eu presgripsiynu'n ddiogel ac o bell, o'i gymharu â'r gyfran oedd yn meddwl bod angen mesurau ychwanegol. Disgrifiodd rhai ymatebwyr fesurau diogelwch ychwanegol na soniodd y canllawiau amdanynt. Roedd y rhain yn cynnwys pan fo presgripsiynu'n cynnwys cyffuriau a oedd yn agored i gael eu cam-drin neu eu camddefnyddio fel opioidau, pa mor aml y cânt eu presgripsiynu a'r maint. Roedd mesurau diogelwch eraill a godwyd yn cynnwys y gofynion wrth bresgripsiynu o bell ac wrth gysylltu â'r presgripsiynydd arferol neu'r meddyg teulu. Pwysleisiodd llawer o ymatebwyr hefyd bwysigrwydd cael mynediad at gofnodion meddygol cadarn. Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau ar sut y gallai technoleg weithio'n ddiogel yn ymarferol mewn ymgynghoriadau, fel fideo-gynadledda a fideo-ffonio.

## **Effaith y gallai'r cynigion ei chael ar grwpiau amrywiol o randdeiliaid**

Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr o'r farn y byddai'r cynigion naill ai'n cael effaith gadarnhaol, neu effaith gadarnhaol a negyddol ar gleifion a'r cyhoedd, presgripsiynwyr fferyllol, gweithwyr fferyllol proffesiynol eraill a chyflogwyr neu berchnogion fferyllfeydd. Canolbwyntiodd llawer o ymatebwyr ar faterion yn ymwneud â diogelwch cleifion ac roeddent yn teimlo y byddai'r canllawiau'n helpu i godi safonau presgripsiynwyr fferyllol yn fwy eang, er budd cleifion a'r cyhoedd. Mewn cyferbyniad â hyn, roedd eraill o'r farn bod y canllawiau'n rhy gaeth ac y byddai'n ei gwneud hi'n anos i gleifion gael gafael

ar y meddyginiaethau sydd eu hangen arnynt. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o'r farn na fyddai ein cynigion yn gwahaniaethu nac yn anfanteisio'n anfwriadol unrhyw unigolion neu grwpiau sy'n rhannu unrhyw un neu rai o'r nodweddion gwarchoddedig penodol yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Fodd bynnag, credai ychydig o ymatebwyr fod potensial i'r henoed neu'r anabl fod dan anfantais. pe na bai meddyginiaethau'n cael eu presgripsiynu mewn modd amserol.

# Yr ymgynghoriad: yr hyn a wnaethom

## 1. Cefndir polisi

- 1.1.** Dros y tair blynedd diwethaf rydym wedi cynnal ymchwil helaeth i ddeall yn well y materion y mae presgripsiynwyr fferyllol yn eu hwynebu wrth gyflawni eu rôl bresgripsiynu. Roedd hyn yn cynnwys edrych ar wybodaeth a dderbyniwyd trwy ein harolwg presgripsiynwyr (2016), yr ymholiadau a gawsom drwy'r timau addysg a safonau a'n harolygwyr, achosion addasrwydd i ymarfer, ein **papur trafod** ar *sicrhau bod cleifion a'r cyhoedd yn derbyn meddyginiaethau a gwasanaethau fferyllol eraill yn ddiogel ar-lein* (Mehfin 2018), adroddiadau diweddar ac ymgynghoriadau a chanllawiau a gynhyrchwyd gan reoleiddwyr a chyrff proffesiynol eraill.
- 1.2.** Yn ategol at hyn, rydym wedi datblygu canllawiau ar gyfer presgripsiynwyr fferyllol i helpu i sicrhau eu bod yn darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion a'r cyhoedd ac i'w helpu i ddeall eu rhwymedigaethau fel presgripsiynwyr a phwysigrwydd presgripsiynu'n ddiogel. Mae'r canllawiau'n berthnasol i bresgripsiynwyr fferyllol sy'n gweithio o fewn y GIG neu'n breifat - gan gynnwys gofal sylfaenol a gofal eilaidd - ac mewn rolau gofal iechyd o fewn y lluoedd arfog a charchardai. Mae'n cefnogi'r safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol ac yn cyd-fynd â'n hamcanion rheoleiddio fel y'u nodir yn ein cynllun strategol 2017-20.
- 1.3.** Mae ein **safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol** yn berthnasol i bob gweithiwr fferyllol proffesiynol ym Mhrydain, gan gynnwys presgripsiynwyr fferyllol. O ystyried y cynnydd yn nifer y presgripsiynwyr fferyllol a datblygiad presgripsiynu o bell ac ar-lein, credwn ei bod yn angenrheidiol cyhoeddi canllawiau i helpu i sicrhau bod presgripsiynwyr fferyllol yn cyrraedd ein safonau.
- 1.4.** Yn ogystal, mae ein **Cynllun Strategol 2017-20** yn nodi ein hamcan i ddefnyddio ein pwerau rheoleiddio i gefnogi a gwella'r modd y darperir gofal diogel, effeithiol ac i gynnal ffydd mewn fferylliaeth. Un o'r ffyrdd rydyn ni'n gwneud hyn yw trwy sicrhau bod gan bresgripsiynwyr fferyllol y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol.

# Dadansoddi'r ymatebion a'r gweithgaredd ymgysylltu: yr hyn a glywom

Yn rhan hon yr adroddiad, mae'r tablau'n dangos lefel cytuno/anghytuno ymatebwyr yr arolwg i'n newidiadau arfaethedig, neu'r agweddau yr oedd ymatebwyr yn teimlo y dylem eu haddasu. Ym mhob colofn, dangosir nifer yr ymatebwyr ('N') a'u canran ('%'). Mae'r golofn olaf ym mhob tabl yn cyfleu barn holl ymatebwyr yr arolwg ('Cyfanswm N a %'). Mae ymatebion unigolion a sefydliadau hefyd yn cael eu dangos ar wahân i alluogi adnabod unrhyw dueddiadau.

## 2. Prif feysydd ar gyfer presgripsiynu diogel ac effeithiol

**Tabl 1:** Barn ar y prif feysydd ar gyfer presgripsiynu diogel ac effeithiol

C1. Ydyn ni wedi nodi'r holl feysydd angenrheidiol ar gyfer sicrhau bod gofal diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu?	N a % o unigolion	N a % o sefydliadau	Cyfanswm N a % ymatebwyr
Ydyn	188 (76%)	27 (73%)	215 (76%)
Nac ydyn	41 (17%)	9 (24%)	50 (18%)
Ddim yn gwybod	18 (7%)	1 (3%)	19 (7%)
<b>Cyfanswm N ymatebwyr</b>	<b>247 (100%)</b>	<b>37 (100%)</b>	<b>284 (100%)</b>

**Tabl 2:** Dadansoddiad o'r farn ar y prif feysydd ar gyfer presgripsiynu diogel ac effeithiol

C2. Ar gyfer pob un o'r naw maes allweddol, ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canllawiau rydyn ni wedi'u cynnig?	N a % o unigolion oedd yn cytuno	N a % o sefydliadau oedd yn cytuno	Cyfanswm N a % ymatebwyr oedd yn cytuno
derbyn cyfrifoldeb am bresgripsiynu'n ddiogel	219 (89%)	24 (65%)	243 (86%)
diweddarau gwybodaeth a phresgripsiynu o fewn lefel cymhwysedd	224 (91%)	29 (78%)	253 (89%)
gweithio mewn partneriaeth â phobl sy'n ceisio gofal a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill	225 (91%)	27 (73%)	252 (89%)
presgripsiynu mewn rhai amgylchiadau penodol	217 (88%)	25 (68%)	242 (85%)
presgripsiynu cynnyrch meddyginiaethol cosmetig nad ydynt yn llawfeddygol	156 (63%)	27 (73%)	183 (64%)
presgripsiynu o bell	179 (72%)	29 (78%)	208 (73%)

C2. Ar gyfer pob un o'r naw maes allweddol, ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canllawiau rydyn ni wedi'u cynnig?	N a % o unigolion oedd yn cytuno	N a % o sefydliadau oedd yn cytuno	Cyfanswm N a %ymatebwyr oedd yn cytuno
mesurau diogelwch ar gyfer presgripsiynu rhai meddyginiaethau o bell	184 (74%)	29 (78%)	213 (75%)
mynegi pryderon	232 (94%)	32 (86%)	264 (93%)
gwybodaeth i berchnogion fferyllfeydd a chyflogwyr presgripsiynwyr fferyllol	182 (74%)	28 (76%)	210 4 %)

## 2.1 Crynodeb o dablau 1 a 2

- 2.1.1 Roedd tua thri chwarter yr ymatebwyr (76%) yn cytuno bod y canllawiau'n nodi'r holl feysydd angenrheidiol ar gyfer sicrhau gofal diogel ac effeithiol (tabl 1). Fodd bynnag, roedd ychydig mwy o sefydliadau (24%) yn teimlo nad oedd ein canllawiau'n nodi'r holl feysydd angenrheidiol o'i gymharu ag unigolion (17%).
- 2.1.2 Wrth edrych ar y meysydd allweddol yn fwy manwl yn nhabl 2, mynegi pryderon (93%), gweithio mewn partneriaeth â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill a phobl sy'n ceisio gofal (89%), a meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf a phresgripsiynu o fewn lefel gallu presgripsiynydd (89%) oedd y meysydd yr oedd mwyaf o gytuno yn eu cylch.
- 2.1.3 Y maes yr oedd ymatebwyr yn fwyaf tebygol o gytuno ag ef oedd y darpariaethau ynghylch presgripsiynu cynhyrchion meddyginiaethol cosmetig nad ydynt yn llawfeddygol (63%). Fodd bynnag, nododd mwy o ymatebwyr nad oedden nhw'n gwybod (25%) yn hytrach nag anghytuno (11%) ynghylch a oedd hwn yn faes priodol yn y canllawiau.
- 2.1.4 Y maes lle roedd y gwahaniaeth mwyaf rhwng ymatebion gan unigolion ac ymatebion gan sefydliadau oedd derbyn cyfrifoldeb dros bresgripsiynu yn ddiogel. Roedd cyfran uwch o sefydliadau (32%) yn anghytuno â'r cynnig hwn o'i gymharu ag unigolion (10%).
- 2.1.5 Rhoddodd tua 60% o'r ymatebwyr sylwadau esboniadol i'r cwestiwn hwn. Mae'r canlynol yn ddadansoddiad o'r themâu a geir yn y sylwadau hyn ac o'r digwyddiadau ymgysylltu ehangach.

## 2.2 Crynodeb o themâu

- 2.2.1 Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn ymwneud ag ystod eang o themâu, gyda llawer ohonynt yn ymwneud â chwestiynau dilynol ac felly'n cael eu trafod yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn. Mae hyn yn cynnwys y darpariaethau ynghylch cyrchu cofnodion meddygol (gweler adran 6.4), gofyn am gydsyniad i gael mynediad at gofnodion (gweler adran 6.5), rhannu gwybodaeth ymhlith gwahanol leoliadau (gweler adran 6.6) a phryderon ynghylch presgripsiynu o bell (gweler adran 8).
- 2.2.2 Y themâu mwyaf cyffredin a welwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn oedd:
- Bod y canllawiau'n canolbwyntio gormod ar fferylliaeth gymunedol heb adlewyrchu pob lleoliad
  - Cyfeirio at y canllawiau presennol
  - Perygl o gamddefnyddio neu ymarfer anfoesegol

- Bylchau yn y canllawiau

## 2.3 Cefnogaeth gyffredinol i'r cynigion

- 2.3.1 Roedd llawer o ymatebion i'r cwestiwn hwn yn teimlo bod y meysydd allweddol a nodwyd yn gynhwysfawr ac yn adlewyrchu'r safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol a safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig a fyddai'n helpu i sicrhau gofal diogel ac effeithiol.
- 2.3.2 Roedd ychydig o ymatebwyr yn falch bod y canllawiau'n ymdrin ag arferion newydd a chynyddol gyffredin fel presgripsiynu o bell a phresgripsiynu cynnyrch meddyginiaethol nad ydynt yn llawfeddygol. Fodd bynnag, o ystyried natur arbenigol y meysydd hyn, roedd llawer yn methu penderfynu a oedd y rhain yn cael sylw priodol yn y canllawiau oherwydd diffyg cynefindra neu ddealltwriaeth o'r meysydd arbenigol hyn.
- 2.3.3 Roedd rhai ymatebwyr yn cytuno â'n cynigion i raddau helaeth ond am fanteisio ar y cyfle i dynnu sylw at sut y gellid cryfhau meysydd penodol ymhellach, er enghraifft, trwy ddarparu enghreifftiau neu fwy o gyd-destun ar gyfer pob maes, yn ehangu ar yr hyn all amrywio o ran lleoliad a chwmpas.

## 2.4 Lleoliadau eraill

- 2.4.1 Er eu bod yn cytuno â'r cynigion, roedd llawer yn teimlo y gallai'r meysydd allweddol wneud mwy i egluro neu ystyried y gwahaniaethau ymarferol ymhlith gwahanol lleoliadau fferyllol.
- 2.4.2 Trwy gydol yr ymgynghoriad, roedd nifer fawr o ymatebwyr yn teimlo bod y canllawiau'n canolbwyntio'n ormodol ar fferylliaeth gymunedol ac y gallent ymdrin mwy â gwahanol weithdrefnau a phrosesau sydd ar waith mewn lleoliadau eraill, megis ysbytai a charchardai.
- 2.4.3 Ymhlith y rhai oedd â phrofiad mewn ysbytai, awgrymwyd nad oedd y cynigion yn adlewyrchu realiti llawer o ymarfer dydd i ddydd ysbytai, o'i gymharu â lleoliadau cymunedol. Mae hyn yn cynnwys y gwahanol bwysau amser sy'n wynebu presgripsiynwyr fferyllol, y gofynion ar gyfer gweithio fel rhan o dîm amlddisgyblaeth, y gwahanol lefelau o gydsyniad a'r brys ar gyfer presgripsiynu sy'n ofynnol ar gyfer rhai cleifion.
- 2.4.4 Tynnodd llawer o ymatebwyr sylw at waith tîm amlddisgyblaethol ysbytai lle mae disgwyl i bresgripsiynwyr fferyllol bresgripsiynu fel rhan o'r rownd ward yn aml. Yn yr amgylchiadau hyn, tynnwyd sylw at y ffaith y byddai presgripsiynydd fferyllol fel arfer yn presgripsiynu dan gyfarwyddyd presgripsiynydd arall, fel ymgynghorydd. Roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo bod y canllawiau wedi methu â mynd i'r afael â'r agwedd hon ar rôl y presgripsiynydd fferyllol.
- 2.4.5 Yn ogystal, nododd ymatebwyr efallai nad yw presgripsiynu wastad yn gyfrifoldeb ar bresgripsiynydd fferyllol yn unig, yn hytrach roedd yn gyfrifoldeb tîm yn aml. Tynnwyd sylw at y ffaith bod y lefelau cydsyniad sy'n ofynnol mewn ysbytai yn wahanol i'r lefelau mewn lleoliadau fferyllol cymunedol. Er enghraifft, roedd y rhai a dderbynnir i'r ysbyty yn debygol o fod â chyflyrau gwanychol mwy difrifol a allai effeithio ar allu'r presgripsiynydd i gael caniatâd yn rhwydd.
- 2.4.6 Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo hefyd bod y gofyniad i gael cydsyniad y presgripsiynydd arferol i gael mynediad at gofnodion meddygol mewn rhai lleoliadau yn ddiangen (gweler adran 6.6.1). Roedd hyn ar y sail y byddai gan bresgripsiynwyr fferyllol sy'n gweithio mewn ysbytai neu glinigau meddygon teulu, yr un mynediad at y cofnodion meddygol cynhwysfawr ag y byddai gan y presgripsiynydd arferol (e.e. y Meddyg Teulu) beth bynnag.



- 2.4.7 Roedd nifer fach o ymatebwyr yn teimlo y byddai'r gofyniad i'r claf gael ei atgyfeirio gan ei bresgripsiynydd arferol i bresgripsiynydd fferyllol yn creu problemau mewn argyfwng, neu ofal dwys neu frys, lle mae gweithredu'n gyflym yn hanfodol.
- 2.4.8 Mewn amgylcheddau carchardai, nododd ychydig o ymatebwyr y gall presgripsiynu fod yn anodd gan nad yw llawer o'r carcharorion wedi cofrestru gyda meddygon teulu, nad oes ganddynt fynediad at bresgripsiynydd arferol yn y lle cyntaf, eu bod yn aml o dramor, ac efallai nad ydynt yn siarad Saesneg. Dywedwyd y byddai'n anodd defnyddio'r canllawiau yn y lleoliadau hyn.

## 2.5 Canllawiau sydd eisoes ar gael ar hyn o bryd

- 2.5.1 Thema gyffredin a ddaeth i'r amlwg oedd sut y byddai ein canllaw yn gweithredu mewn perthynas â'r adnoddau presennol sydd eisoes ar waith, gan gynnwys gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC), y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (RPS) a Healthcare Education England (HEE). Er bod llawer o ymatebwyr yn falch bod y CFFC wedi cyfeirio at ganllawiau sydd eisoes yn bodoli, roedd eraill yn teimlo y gellid gwneud mwy i sicrhau dull mwy cyson o ran sut byddai'r canllawiau'n cael eu defnyddio mewn perthynas â'r adnoddau eraill.
- 2.5.2 Cyfeiriwyd at ganllawiau'r GMC drwyddi draw. Nododd ychydig o ymatebwyr y dylai ein canllawiau gyfateb â rhai'r GMC yn enwedig pan fônt yn nodi y dylid wastad hysbysu presgripsiynydd arferol y claf pan ysgrifennir presgripsiynau ar gyfer aelodau'r teulu.
- 2.5.3 Tynnwyd sylw at feysydd lle'r ystyriwyd ein bod yn anghyson gan ychydig o ymatebwyr. Er enghraifft, awgrymwyd nad oedd ein canllawiau ar gymryd cyfrifoldeb am bresgripsiynu yn ddiogel yn adlewyrchu canllawiau a barn gyfredol yn llawn o ran gwneud penderfyniadau ar y cyd, a'r gofyniad cyfreithiol i gynorthwyo cleifion i ddeall eu hopsiynau triniaeth.
- 2.5.4 Nododd lleiafrif bach iawn fod y meysydd a nodwyd yng nghanllawiau'r CFFC yn ddiangen, o ystyried y canllawiau presennol sydd ar waith. Fodd bynnag, roedd cyfran fwy yn teimlo bod canllawiau yn y maes hwn yn gyfle i sicrhau ein bod yn gyson o ran y neges a drosglwyddir.
- 2.5.5 Galwodd mynychwyr y digwyddiad bord gron a grwpiau ffocws am ddull mwy integredig o bresgripsiynu gan y gwahanol broffesiynau iechyd. Ond roedd lleiafrif bach yn poeni bod y ffin rhwng meddygon a presgripsiynwyr fferyllol yn aneglur, ac y gallai hyn beri dryswch i'r cyhoedd.

## 2.6 Risg camddefnydd neu ymarfer anfoesegol

- 2.6.1 Roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo bod rhai agweddau ar y canllawiau yn agored i gael eu camdrin neu y gallent fod mewn perygl o gael eu camddefnyddio. Er enghraifft, roedd rhai ymatebwyr yn yr arolwg ar-lein a'r digwyddiadau ymgysylltu yn anghyfforddus gyda'r syniad bod eu cofnodion meddygol cyfrinachol yn cael eu rhannu'n fwy rhydd rhwng gwahanol leoliadau. Roeddent yn teimlo bod hyn yn ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio eu cofnodion yn faleisus.
- 2.6.2 Roedd nifer fawr o ymatebwyr yn teimlo mai'r cynigion ar bresgripsiynu o bell oedd y maes a oedd fwyaf agored i gael ei gamddefnyddio. Nododd llawer y byddai'n haws i bobl osgoi gweithredu'r cynigion trwy hysbysebu meddyginiaethau presgripsiwn yn anghyfreithlon pe bai'r math hwn o bresgripsiynu yn dod yn fwy cyffredin.
- 2.6.3 Roedd rhai ymatebwyr yn poeni y gallai cyflogwyr ddefnyddio presgripsiynwyr fferyllol i yrru targedau er mwyn cael budd ariannol ac ar draul cefnogi a hyfforddi eu gweithwyr. Roeddent hefyd o'r farn y gellid cryfhau'r canllawiau i wahaniaethu rhwng cymhellion priodol fel canllawiau a fformwleiddiadau a chymhellion amhriodol fel nawdd neu wobrau ariannol.

- 2.6.4 Roedd rhai ymatebwyr yn croesawu'r canllawiau sy'n nodi na fyddai presgripsiynu o bell yn briodol mewn meddygaeth gosmetig. Fodd bynnag, roedden nhw'n rhybuddio y gallai ecsbloetio ariannol gynyddu yn y maes hwn, gan fod y canllawiau yn rhoi rhyddid i ymarfer barn broffesiynol. Roedden nhw'n argymhell y dylid diwygio'r meini prawf i adlewyrchu hyn, neu eu bod yn egluro sut y gall presgripsiynwyr fferyllol reoli cymhellion neu dargedau mewn ffordd foesebol.
- 2.6.5 Roedd ychydig o ymatebwyr yn teimlo y gallai'r cynigion gynyddu nifer y gwallau meddygol neu ddsbarthu pe bai cofnodion meddygol, y dibynnir arnynt gan bresgripsiynwyr fferyllol, yn anghywir i ddechrau. Er enghraifft, credai rhai ymatebwyr fod Cofnodion Gofal Cryno'r GIG weithiau wedi dyddio (gweler adran 6.4).

## 2.7 Bylchau eraill

- 2.7.1 Roedd rhai ymatebwyr yn y grwpiau ffocws cleifion ac yn yr arolwg ar-lein yn anghyffyrddus â'r syniad o ganiatáu i bresgripsiynwyr fferyllol bresgripsiynu ar gyfer cyflyrau heblaw mân anhwylderau. Er eu bod yn cytuno y dylai presgripsiynwyr fferyllol ddarparu gwasanaeth ymatebol yn seiliedig ar anghenion eu cymuned leol, roedd rhai o'r farn y dylid cyfyngu'r mathau o wasanaethau a gynigir i feddygon teulu sydd â mwy o brofiad ac amser i ddelio â rhai cyflyrau.
- 2.7.2 Cyflwynodd ymatebwyr eu hawgrymiadau ar feysydd newydd posibl nad ydyn nhw eisoes wedi'u nodi neu lle y gellid gwneud gwelliannau allweddol i'r ardaloedd presennol. Roedd nifer fach o ymatebwyr o'r farn:
- nad oedd y canllawiau'n rhoi digon o ffocws ar anawsterau gwneud diagnosis fel presgripsiynydd.
  - y gellid cryfhau'r amgylchiadau sy'n ymwneud â chychwyn a pharhau â meddyginiaeth yn y canllawiau. Roedd rhai o'r farn y gallai fod yn fwy priodol sicrhau parhad cyflenwad heb orfod cysylltu â'r meddyg teulu, er enghraifft wrth ryddhau o ysbytai.
  - bod y derminoleg yn rhy amwys a bod hyn yn ei gwneud hi'n anodd asesu sut y byddai'r meysydd allweddol yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol.
  - y gallai 'cwmpas cymhwysedd' fod yn berthnasol i agweddau ar rôl y presgripsiynydd nad ydyn mewn gwirionedd yn ymwneud â phresgripsiynu, megis meddu ar wybodaeth angenrheidiol am systemau TG mewn gwahanol leoliadau fel ysbytai neu feddygfeydd teulu. Teimlai nifer fach fod angen egluro'r agwedd hon gyda mwy o gyd-destun.
  - y gallai trawsgrifio fod yn faes newydd neu'n ychwanegiad at faes sy'n bodoli eisoes yn y canllawiau.
  - nad oedd y meysydd allweddol yn ymdrin yn ddigonol ag agweddau ar rôl y presgripsiynydd nad ydynt yn ymwneud â phresgripsiynu, megis atgyfeiriadau, ceisiadau am brofion a gofal dilynol.
  - y gellid rhoi mwy o bwyslais ar ofal cyfannol y claf i adlewyrchu rôl gynyddol eang y presgripsiynydd fferyllol.
  - nad oedd meysydd allweddol yn y canllawiau yn canolbwyntio ar wneud penderfyniadau ar y cyd a chynnwys cleifion mewn penderfyniadau ynghylch optimeiddio meddyginiaethau, presgripsiynu a dad-bresgripsiynu.
  - y dylai'r canllaw gyfeirio'n benodol at ddyletswydd gonestrwydd neu'r angen i fod yn agored ac yn onest gyda chleifion a'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau presgripsiynwyr fferyllol pan aiff pethau o chwith.

- nad oedd y geiriad yn y canllawiau ar hyn o bryd yn adlewyrchu canllawiau 2017 CFFC ar grefydd, gwerthoedd personol a chredoau. Yn benodol, roeddent yn teimlo y gallai'r canllaw wneud mwy i gydnabod hawl presgripsiynwyr fferyllol i ymarfer yn unol â'u credoau.

### 3. Amgylchiadau lle dylid ystyried a yw'n briodol presgripsiynu'n ddiogel

**Tabl 3:** Barn ar yr amgylchiadau pan fydd yn rhaid i bresgripsiynydd fferyllol benderfynu a all bresgripsiynu'n ddiogel i berson

C4. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y rhain yn amgylchiadau pan fo'n rhaid i bresgripsiynydd fferyllol benderfynu a all bresgripsiynu'n ddiogel i berson?	N a % o unigolion	N a % o sefydliadau	Cyfanswm N o % ymatebwyr
<b>Cytuno</b>	213 (86%)	29 (78%)	<b>242 (85%)</b>
<b>Anghytuno</b>	29 (12%)	6 (16%)	<b>35 (12%)</b>
<b>Ddim yn gwybod</b>	5 (2%)	2 (5%)	<b>7 (2%)</b>
<b>Cyfanswm N ymatebwyr</b>	<b>247 (100%)</b>	<b>37 (100%)</b>	<b>284 (100%)</b>

**Tabl 4:** Barn ynghylch a oes unrhyw amgylchiadau eraill pan fydd yn rhaid i bresgripsiynydd fferyllol benderfynu a all bresgripsiynu'n ddiogel i berson

C5. Oes unrhyw amgylchiadau eraill pan fydd yn rhaid i bresgripsiynydd fferyllol benderfynu a all bresgripsiynu'n ddiogel i berson?	N a % o unigolion	N a % o sefydliadau	Cyfanswm N o % ymatebwyr
<b>Oes</b>	116 (47%)	20 (54%)	<b>136 (48%)</b>
<b>Nac oes</b>	64 (26%)	13 (35%)	<b>77 (27%)</b>
<b>Ddim yn gwybod</b>	67 (27%)	4 (11%)	<b>71 (25%)</b>
<b>Cyfanswm N ymatebwyr</b>	<b>247 (100%)</b>	<b>37 (100%)</b>	<b>284 (100%)</b>

#### 3.1 Crynodeb o Dabl 3 a 4

- 3.1.1 Mae Tabl 3 yn dangos bod mwyafrif mawr (85%) o unigolion a sefydliadau yn cytuno â'r amgylchiadau yn y canllawiau sy'n amlinellu pryd y mae'n rhaid i bresgripsiynydd fferyllol benderfynu a all bresgripsiynu'n ddiogel i berson.
- 3.1.2 Roedd ychydig mwy o gytuno ymhlith unigolion (86%) o'i gymharu â sefydliadau (78%).
- 3.1.3 Pan ofynnwyd a oedd unrhyw amgylchiadau eraill heb eu nodi eisoes, mae tabl 4 yn dangos bod tua hanner yr holl ymatebwyr yn teimlo bod rhai ar goll. Roedd cyfran ychydig yn uwch o sefydliadau yn teimlo bod amgylchiadau eraill (54%) o'i gymharu ag unigolion (47%). Fodd bynnag, roedd cyfran fwy o unigolion (27%) yn nodi nad oedden nhw'n gwybod a oedd unrhyw amgylchiadau eraill o'i gymharu â sefydliadau (11%).

3.1.4 Rhoddodd tua 55% o'r ymatebwyr sylwadau esboniadol. Mae'r canlynol yn ddadansoddiad o'r themâu a geir yn y sylwadau hyn.

## 3.2 Crynodeb o themâu

3.2.1 Roedd llawer o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn ymdrin â'r themâu a nodir yn adran 5 uchod ac felly nid ydynt wedi'u hailadrodd yma.

3.2.2 Cododd ymatebwyr i'r cwestiwn hwn nifer o bwyntiau ar yr amgylchiadau a nodwyd yn y canllawiau pan fydd yn ddiogel i bresgripsiynu. Cyflwynwyd hefyd awgrymiadau ar amgylchiadau ychwanegol nad oeddent eisoes wedi'u hystyried.

3.2.3 Roedd y themâu mwyaf cyffredin yn cynnwys y rhai nad oes ganddynt y gallu i wneud penderfyniad ynghylch eu gofal, cyrchu, rhannu a gofyn am gydsyniad i gael cofnodion cleifion, a'r gwahaniaethau sydd ar waith ymhlith gwahanol leoliadau fferyllol (gweler adran 5.4).

## 3.3 Rhai sydd heb y gallu i wneud penderfyniad ynghylch eu gofal

3.3.1 Roedd y mater a gododd amlaf, a'r maes lle'r oedd ymatebwyr yn teimlo bod angen cyfarwyddyd pellach yn y canllawiau, yn ymwneud ag amgylchiadau pan nad oes gan bobl neu gleifion y gallu i wneud penderfyniad ynghylch eu gofal. Tynnodd ychydig o ymatebwyr sylw hefyd at eu profiadau personol eu hunain lle bu'n rhaid iddynt, fel presgripsiynwyr, wneud penderfyniadau presgripsiynu anodd pan nad oedd gan glaf y gallu i gydsynio. Roedd y rhan fwyaf o'r enghreifftiau bywyd go iawn hyn wedi digwydd mewn ysbytai, ac roedd rhai yn teimlo bod angen eu hadlewyrchu'n well yn y canllawiau (gweler adran 5.3).

3.3.2 Roedd cryn drafod ar yr hyn y mae 'diffyg gallu' yn ei olygu. Roedd rhai'n ei ddefnyddio fel term eang i ddisgrifio'r rhai na allant wneud penderfyniad ynghylch eu gofal, ond nododd eraill y gallai diffyg gallu gynnwys nodweddion corfforol a meddyliol. Er enghraifft, gellid gweld bod gan y rhai sydd wedi meddwi, yn anymwybodol, neu sydd ag anabledd dros dro oherwydd anaf neu salwch i gyd ddiffyg gallu.

3.3.3 Tynnodd rhai ymatebwyr sylw hefyd at y berthynas rhwng y presgripsiynydd fferyllol a rôl trydydd person sy'n gyfreithiol gyfrifol am wneud penderfyniad ynghylch gofal claf. Yn benodol, soniwyd yn aml am yr atwrnai lles a'r Pŵer Atwrnai Parhaol (LPA) fel meysydd yr oedd angen i'r canllawiau fynd i'r afael â nhw. Roedd un ymatebydd yn teimlo y byddai gan yr LPA, mewn llawer o amgylchiadau, wybodaeth gywirach am hanes meddygol y claf ac na fyddai osgoi'r LPA yn y broses bresgripsiynu yn dderbyniol oni bai ei fod yn argyfwng.

## 3.4 Cyrchu cofnodion

3.4.1 Roedd thema gyffredin trwy gydol y cwestiwn hwn a'r ymgynghoriad ehangach yn canolbwyntio ar ein cynigion ynghylch rhannu gwybodaeth. Yn benodol, trafodwyd yn helaeth y gofynion ynghylch caniatâd a phryd y mae angen cyrchu a rhannu gwybodaeth i bresgripsiynu'n ddiogel.

3.4.2 Roedd llawer o ymatebwyr yn falch bod y canllawiau yn ei gwneud yn glir ei bod yn bwysig bod presgripsiynwyr fferyllwyr yn gallu cyrchu cofnodion meddygol yr unigolyn i bresgripsiynu'n ddiogel. Fodd bynnag, tynnwyd sylw at yr anawsterau wrth gyrchu cofnodion o'r fath trwy gydol ymatebion yr ymgynghoriad.

3.4.3 Er bod llawer o ymatebwyr yn cytuno ei bod yn ddymunol iawn cael mynediad at gofnodion meddygol claf, roeddent hefyd yn teimlo mai'n anaml iawn y gellir cyflawni hyn yn ymarferol, yn

enwedig rhwng gwahanol leoliadau. Yn ogystal, soniwyd drwyddi draw am y datgysylltiad rhwng lleoliadau cymunedol ac ysbytai wrth rannu gwybodaeth.

- 3.4.4 Roedd llawer yn teimlo bod angen gwaith pellach i fynd i'r afael â hyn i sicrhau bod y canllawiau'n cael eu gweithredu yn ôl y bwriad. Er enghraifft, roedd rhai yn credu y dylai fferyllwyr mewn lleoliadau cymunedol, yn ddelfrydol, gael mynediad arferol at y cofnodion gofal brys cryno a'r porthol clinigol wrth asesu a yw'n ddiogel ac yn glinigol briodol iddynt bresgripsiynu ai peidio. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oedd hyn yn wir bob amser.
- 3.4.5 Ar y mater hwn, roedd rhai ymatebwyr yn beirniadu'r Cofnodion Gofal Cryno (SCR) ac roeddent yn teimlo nad oeddent yn ffynhonnell wybodaeth briodol i ddibynnu arni ar ei phen ei hun. Roeddent hefyd yn credu bod yr SCR yn dueddol o fod yn anghywir, nad oeddent yn gallu cael eu diweddarau gan y presgripsiynydd fferyllol ei hun ac nad oeddent bob amser yn cynnwys gwybodaeth gadarn i wneud penderfyniadau priodol ynghylch a ddylid presgripsiynu'n ddiogel. O ganlyniad, roedd ychydig o ymatebwyr o'r farn ei bod yn arfer da i bresgripsiynwyr fferyllol ddefnyddio dwy ffynhonnell wybodaeth yn lle un yn unig er mwyn presgripsiynu'n ddiogel. Er enghraifft, dyfynnwyd canlyniadau profion/ymgyngoriadau a llythyrau gan ysbytai fel enghreifftiau o ffynonellau gwybodaeth gwahanol y gallai fferylllydd eu defnyddio i wneud penderfyniad ynghylch a yw'n ddiogel presgripsiynu.

### 3.5 Rhannu gwybodaeth

- 3.5.1 Holodd ymatebwyr hefyd y math o wybodaeth feddygol y dylid ei rhannu ymhlith gwahanol leoliadau. Roedd rhai o'r farn ei bod yn bwysig peidio â chyfyngu rhannu gwybodaeth i ddim ond meddyginiaethau. Yn lle hynny, roeddent o'r farn y dylai rhannu gwybodaeth fod yn derm eang sy'n cynnwys gwybodaeth glinigol berthnasol a chanlyniadau profion diweddar i helpu'r presgripsiynydd fferyllol i benderfynu ai presgripsiynu neu ohirio triniaeth sydd fwyaf diogel.
- 3.5.2 Nododd ychydig o ymatebwyr nad oedd yn arfer cyffredin rhannu cofnodion y GIG ag ymarferwyr yn y clinigau preifat. Roeddent yn cwestiynu sut y byddai'r canllawiau'n mynd i'r afael â hyn.
- 3.5.3 Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo hefyd nad oedd bob amser angen i fferyllwyr rannu gwybodaeth neu gyfathrebu pob enghraifft o bresgripsiynu. Yn hytrach, roeddent o'r farn ei fod yn dibynnu ar y math o gyflwr a oedd yn cael ei drin a chyflwr y claf. Roedd ymatebwyr hefyd o'r farn y dylid annog fferyllwyr i ddilyn eu barn broffesiynol a'u diwydrwydd dyladwy i benderfynu'n broffesiynol a chlinigol am rannu gwybodaeth, a hynny ar sail amgylchiadau'r unigolyn.

### 3.6 Gofyn am ganiatâd i gyrchu cofnodion meddygol

- 3.6.1 Roedd nifer o ymatebwyr yn poeni am y gofyniad i bresgripsiynwyr fferyllwyr gael caniatâd y 'presgripsiynydd arferol' er mwyn cael mynediad at gofnodion cleifion. Fodd bynnag, daeth i'r amlwg yn ystod y cyfnod ymgynghori mai gwall yn y **ddogfen ymgynghori** oedd hyn. Roedd llawer yn teimlo y dylid diwygio'r canllawiau i egluro y dylai presgripsiynwyr fferyllwyr ofyn am gydsyniad y claf yn hytrach na'r presgripsiynydd arferol, yn unol â'r bwriad gwreiddiol.
- 3.6.2 Gan nad oedd hyn yn digwydd yn arferol ar hyn o bryd roedd pryderon mai'r cynnig hwn fyddai'n cael yr effaith fwyaf ac y gallai arwain at drafferthion sylweddol. Er enghraifft, tynnodd rhai sylw at y ffaith nad oes gan bob claf bresgripsiynydd arferol yn y lle cyntaf neu na fyddent am i'w presgripsiynydd arferol wybod pob manylyn am eu trafodaeth gyda'r presgripsiynydd fferyllol. Roedd eraill yn teimlo bod y cynnig hwn yn faich mawr yn y broses bresgripsiynu yn enwedig os

oedd y claf eisoes wedi rhoi caniatâd naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, fel sydd aml yn wir mewn ysbytai.

- 3.6.3 Awgrymodd nifer fach o ymatebwyr fod gan ein cynnig y potensial i danseilio rôl y presgripsiynydd fferyllol yn gyfan gwbl. Roedd hyn ar y sail ei fod yn atgyfnerthu sefyllfa israddol i bresgripsiynwyr fferyllol ac y gallai hyn eu hatal rhag darparu gofal i glaf ar sail barn gweithiwr gofal iechyd proffesiynol arall. Roedd rhai ymatebwyr hefyd o'r farn y dylid annog presgripsiynwyr fferyllol i ddefnyddio'u barn broffesiynol yn hytrach na gorfod cysylltu â'r presgripsiynydd arferol ym mhob amgylchiad.
- 3.6.4 Er mwyn mynd i'r afael â hyn, awgrymwyd y dylid egluro'r term 'presgripsiynydd arferol' i sicrhau bod y canllawiau'n cael eu defnyddio'n ymarferol fel y'u bwriadwyd.
- 3.6.5 Roedd ychydig o ymatebwyr yn teimlo ei bod yn bosibl i fferyllwyr bresgripsiynu heb fod angen mynediad at gofnodion claf ar rai achlysuron. Gan ddefnyddio proffylaxis malaria fel enghraifft, dangosodd un ymatebydd y byddai holi'r claf yn ddigonol ar gyfer cyflyrau o'r fath. Fodd bynnag, roedd nifer uwch o ymatebwyr o'r farn ei bod yn bosibl i bresgripsiynwyr fferyllwyr bresgripsiynu heb fynediad at gofnodion meddygol.

### 3.7 Amgylchiadau eraill

- 3.7.1 Tynnodd ymatebwyr sylw yn gryno at amgylchiadau eraill yn ymwneud â'r claf lle mae'n rhaid i'r presgripsiynydd fferyllol benderfynu a all bresgripsiynu'n ddiogel. Mae'r rhain yn cynnwys pan fo'r claf:
- dan 18 oed
  - yn methu siarad Saesneg
  - yn ddinesydd tramor
- 3.7.2 Nodwyd amgylchiadau mwy cyffredinol eraill hefyd, ac maent yn cynnwys pan:
- nad oes gan bresgripsiynydd fferyllol y sgiliau asesu clinigol digonol
  - fo'r cyflwr sy'n cael ei drin y tu allan i gymhwysedd y presgripsiynydd
  - fydd yn ofynnol i bresgripsiynydd fferyllol drafod buddion a niwed opsiynau triniaeth
  - fo angen sensitifrwydd o ran dewisiadau personol unigolyn, e.e. cyfeiriadedd rhywiol
  - fo gan y presgripsiynydd fferyllol a'r claf berthynas bersonol agos
  - nad oes digon o gyfleusterau nac offer i gynnal gwerthusiad o gyflwr y claf

### 3.8 Sylwadau ac awgrymiadau eraill

- 3.8.1 Gydag ymatebwyr oedd yn cytuno â'r amgylchiadau a amlinellwyd yn y canllawiau, wrth egluro eu rhesymau, roeddent o'r farn y byddai'n helpu i sicrhau bod presgripsiynwyr fferyllol yn presgripsiynu'n ddiogel ac yn darparu gofal sydd â'r claf yn ganolog iddo.
- 3.8.2 Er bod y mwyafrif yn cytuno â'r cynigion, gwnaeth rhai ymatebwyr gais am eglurhad a chyflwyno awgrymiadau ynghylch sut i wneud yr amgylchiadau a amlinellir yn y canllawiau yn fwy effeithiol.
- 3.8.3 Er enghraifft, roedd dynaid o ymatebwyr yn anghytuno â'r derminoleg, yn enwedig yn ymwneud â'r 'amgylchiadau' lle mae'n rhaid i bresgripsiynydd fferyllol benderfynu a all bresgripsiynu'n

ddiogel. Roeddent yn teimlo y gallai'r canllawiau elwa o'i gwneud yn glir mai'r amgylchiadau a restrir yw'r rhai a allai fod yn arbennig o dueddol o greu risgiau, gan fod yr ymadrodd 'amgylchiadau' ar ei ben ei hun yn rhy eang. Roedd ymatebwyr o'r farn y gellid gwneud y canllawiau'n gliriach i nodi y byddai unrhyw un o'r amgylchiadau yn sbarduno presgripsiynydd fferyllydd i benderfynu a yw'n ddiogel presgripsiynu.

- 3.8.4 Roedd ychydig o ymatebwyr o'r farn, er bod yr holl amgylchiadau wedi'u cynnwys yn y canllawiau, nad oedd yn eglur a oedd maint a chwmpas rhai o'r rolau presgripsiynu uwch wedi'u hystyried yn llawn. O ganlyniad, gall yr amgylchiadau fod yn fwy eang nag a dybiwyd yn wreiddiol ac efallai y bydd angen eu hadolygu yn y dyfodol.
- 3.8.5 Rhybuddiodd rhai ymatebwyr, a oedd hefyd yn cytuno â'r amgylchiadau mewn egwyddor, y gallai fod canlyniad anfwriadol o leihau gallu presgripsiynwyr fferyllol i weithredu ar adegau pan fyddai'n rhaid iddynt ofyn am gydsyniad gan bresgripsiynydd arferol yr unigolyn i gael mynediad at gofnodion meddygol.
- 3.8.6 Roedd un ymateb gan sefydliad yn teimlo bod yr amgylchiadau a amlinellwyd yn y canllawiau yn briodol ar wahân i mewn sefyllfaoedd 'pan nad yw'r unigolyn wedi cael ei atgyfeirio at bresgripsiynydd fferyllol gan ei bresgripsiynydd ei hun'. Wrth egluro eu rhesymau, fe wnaethant amlinellu y gallai fod adegau pan fydd person yn cael ei atgyfeirio at bresgripsiynydd fferyllol gan aelod arall o'r tîm gofal iechyd fel metron gymunedol neu nyrs practis. Yn yr amgylchiadau hyn, nodwyd y gallai fod yn briodol i bresgripsiynu cyhyd â bod y presgripsiynydd fferyllol yn gallu cyrchu'r cofnodion iechyd perthnasol a'i fod yn gymwys i bresgripsiynu.

## 4. Presgripsiynu a chyflenwi

**Tabl 5:** Amgylchiadau lle dylai presgripsiynydd fferylllydd allu presgripsiynu a chyflenwi

C7. Oes unrhyw amgylchiadau eraill lle credwch y dylai presgripsiynydd fferyllol allu presgripsiynu a chyflenwi?	N a % o unigolion	N a % o sefydliadau	Cyfanswm N o % ymatebwyr
Oes	92 (37%)	15 (41%)	<b>107 (38%)</b>
Nac oes	101 (41%)	20 (54%)	<b>121 (43%)</b>
Ddim yn gwybod	54 (22%)	2 (5%)	<b>56 (20%)</b>
<b>Cyfanswm N ymatebwyr</b>	<b>247 (100%)</b>	<b>37 (100%)</b>	<b>284 (100%)</b>

### 4.1 Crynodeb o dabl 5

- 4.1.1 Mae Tabl 5 yn dangos bod ymateb cymysg ynghylch a oedd unrhyw amgylchiadau eraill lle dylai presgripsiynydd fferylllydd allu presgripsiynu a chyflenwi'n ddiogel. Roedd cyfanswm o 38% o'r holl ymatebwyr o'r farn bod amgylchiadau ychwanegol, dim ond ychydig yn llai na'r rhai oedd yn cytuno bod y canllawiau wedi nodi'r holl amgylchiadau ar gyfer presgripsiynu a chyflenwi (43%).
- 4.1.2 Nododd tuag un o bump o'r holl ymatebwyr nad oeddent yn gwybod a oedd unrhyw amgylchiadau eraill heblaw'r rhai a amlinellwyd yn y canllawiau.
- 4.1.3 Roedd sefydliadau ac unigolion yn gymharol gyson eu barn ar y cwestiwn hwn. Roedd ychydig mwy o sefydliadau (41%) yn teimlo bod amgylchiadau eraill, o'i gymharu ag unigolion (37%). Fodd bynnag, nododd cyfran lawer uwch o unigolion (22%) nad oedden nhw'n gwybod a oedd unrhyw amgylchiadau eraill, o'i gymharu â sefydliadau (5%).
- 4.1.4 Rhoddodd tua thraean o'r ymatebwyr sylwadau esboniadol i'r cwestiwn hwn. Mae'r canlynol yn ddadansoddiad o'r themâu a geir yn y sylwadau hyn.

### 4.2 Crynodeb o themâu

- 4.2.1 Roedd ymatebion i'r cwestiwn hwn yn rhoi disgrifiad o rai o'r amgylchiadau eithriadol pan allai fod yn briodol i bresgripsiynwyr fferyllol bresgripsiynu a chyflenwi.
- 4.2.2 Yr amgylchiad mwyaf cyffredin a nodwyd yn yr ymatebion oedd mewn sefyllfaoedd brys neu aciwt a phan nad oedd presgripsiynydd arall ar gael, megis mewn lleoliadau anghysbell neu ynysig. Tynnodd llawer o ymatebwyr sylw at sut y gall yr amgylchiadau, pan fydd angen presgripsiynu a chyflenwi, amrywio rhwng y gwahanol leoliadau y mae presgripsiynwyr fferyllol yn gweithio ynddynt. Tynnodd nifer fawr o ymatebwyr sylw hefyd at eitemau a bresgripsiynir yn rheolaidd fel enghraifft o adegau pan allai fod angen presgripsiynu a chyflenwi.

### 4.3 Cyflenwi mewn argyfwng neu sefyllfaoedd aciwt

- 4.3.1 Roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo y byddai sefyllfaoedd brys, sefyllfaoedd lle'r oedd bygythiad i fywyd neu sefyllfaoedd aciwt yn amgylchiadau eithriadol lle gallai fod angen presgripsiynu a chyflenwi. Cafwyd peth trafodaeth bellach ar yr hyn a fyddai wir yn sefyllfa gyflenwi frys a'r cyd-destun y mae sefyllfaoedd brys yn digwydd ynddo. Er enghraifft, tynnwyd sylw at y ffaith y gallai sefyllfa frys mewn ysbyty fod yn wahanol i'r un mewn fferyllfa gymunedol.



4.3.2 Roedd cyflenwad brys, i lawer o ymatebwyr, yn briodol pan oedd sefyllfa wir yn peryglu diogelwch cleifion, fel risg o orddos. Hefyd, nododd ymatebwyr rai amgylchiadau eraill lle byddai'n briodol presgripsiynu a chyflenwi ar frys, er enghraifft gel glwcos neu glwcagon ar gyfer hypoglycemia, adrenalin ar gyfer anaffylaxis, ac anadlydd salbutamol ar gyfer pwl o asthma.

4.3.3 Gallai enghreifftiau eraill o sefyllfa frys gynnwys:

- mewn gwyliau neu gynulladau mawr
- gweinyddu gofal lliniarol
- cyflyrau difrifol sy'n gofyn am driniaeth frys, fel sepsis

4.3.4 Roedd ychydig o ymatebwyr yn teimlo na ddylai'r presgripsiynwyr fferyllol allu presgripsiynu y tu allan i'w cwmpas cymhwysedd hyd yn oed mewn sefyllfaoedd brys neu pan fo bygythiad i fywyd. Noddwyd, yn hytrach, y dylai presgripsiynwyr fferyllol gydbwyso eu cwmpas cymhwysedd yn erbyn y ddyletswydd ofal a neilltuo amser i werthuso canlyniadau'r ddau.

#### 4.4 Pan na fo presgripsiynydd arall ar gael

4.4.1 Tynnodd llawer o ymatebwyr sylw hefyd at amgylchiadau lle na fyddai presgripsiynwyr eraill ar gael fel arfer. Roedd y rhain yn cynnwys adeg rhyddhau o ysbytai neu leoliadau gofal eilaidd neu ar adegau pan mai dim ond un fferyllydd fyddai ar gael mewn fferyllfa gymunedol fach, er enghraifft.

4.4.2 Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn y gallai presgripsiynu a chyflenwi hefyd fod yn briodol ar gyfer presgripsiynwyr fferyllol sy'n gweithio y tu allan i oriau neu ar alwad, yn enwedig mewn ysbytai. Nododd rhai na fydd unrhyw bresgripsiynwyr eraill ar gael o dan yr amgylchiadau hyn i gynnal gwiriadau cywirdeb terfynol na gwiriad am briodoldeb clinigol.

4.4.3 Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn teimlo y gallai fod angen presgripsiynu a chyflenwi mewn lleoliadau anghysbell neu wledig lle mae presgripsiynwyr fferyllol yn aml ar eu pennau eu hunain heb broses wirio arall yn ymarferol nac ar gael. Ynghylch hyn, roedd ymatebwyr yn teimlo ar y cyfan y byddai er anfantais i gleifion a'r gymuned ehangach pe na bai presgripsiynwyr fferyllol yn gallu presgripsiynu a chyflenwi yn yr amgylchiadau hyn. Fodd bynnag, roedd gan un ymatebydd farn groes i hyn ac roedd yn teimlo y gallai'r canllawiau fod yn agored i gael eu cam-drin pe bai gan bresgripsiynwyr fferyllol hawl i bresgripsiynu a chyflenwi'n rhydd yn yr amgylchiadau hyn.

#### 4.5 Lleoliadau eraill

4.5.1 Fel gyda'r cwestiynau eraill, tynnodd llawer o ymatebwyr sylw at y prosesau a'r gweithdrefnau sydd ar waith ymhlith lleoliadau fferyllol eraill, megis ysbytai, lle gall y mathau o sefyllfaoedd y mae presgripsiynwyr fferyllol yn eu hwynebu fod yn fwy cymhleth o'u cymharu â'r rhai mewn lleoliadau fferyllol cymunedol.

4.5.2 Nododd ychydig o ymatebwyr ei bod yn aml yn angenrheidiol i bresgripsiynwyr fferyllol ysbytai bresgripsiynu a chyflenwi eitemau i sicrhau parhad gofal ac y gallai fod yn anymarferol i ail bresgripsiynydd fod yn rhan o'r broses gyflenwi, yn enwedig mewn adrannau brys.

4.5.3 Roedd nifer fach o ymatebwyr hefyd yn teimlo ei bod yn gyffredin iawn mewn ysbytai i dechnegwyr fferyllol gyflenwi meddyginiaethau pan wnaed y gwiriad cychwynnol gan fferyllydd. Roedd y rhai a gododd y mater hwn yn teimlo y dylai'r canllawiau gwmpasu'r sefyllfa hon.

## 4.6 Eitemau a bresgripsiynir ar sail reolaidd

- 4.6.1 Roedd nifer fawr o ymatebwyr o'r farn bod eitemau neu feddyginiaethau penodol y byddai'n briodol i bresgripsiynwyr fferyllol eu presgripsiynu a'u cyflenwi. Wrth egluro pam, roeddent yn teimlo ei bod yn fwy effeithlon i'r claf a'r fferyllfa sicrhau bod llif gofal cleifion yn cael ei gynnal, pe bai rhai eitemau'n cael eu presgripsiynu a'u cyflenwi gan y fferylllydd.
- 4.6.2 Tynnodd ychydig o ymatebwyr sylw at y Cynllun Mân Anhwylderau lle credwyd bod presgripsiynwyr fferyllol eisoes yn presgripsiynu ac yn cyflenwi, i raddau llai.
- 4.6.3 Ymhlith yr eitemau eraill y mae ymatebwyr yn eu nodi y gallai fod yn briodol i bresgripsiynwyr fferyllol eu presgripsiynu a'u cyflenwi roedd:
- Brechlyn ffliw
  - Cynhyrchion cosmetig nad ydynt yn rhai llawfeddygol fel Botox neu lenwyr
  - Atal cenhedlu brys
  - Brechiadau teithio

## 4.7 Materion eraill

- 4.7.1 Tynnodd ychydig o ymatebwyr sylw at gymhlethdod y broses gyflenwi a all yn aml gynnwys nifer o wahanol gamau gan nifer o wahanol bobl â gwahanol rolau. Roeddent yn teimlo bod angen i'r canllawiau fod yn gliriach ac yn ddiamwys ar ba gamau y dylid eu hosgoi. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, awgrymwyd y byddai proses yn seiliedig ar risg yn fwy priodol i ddisgrifio sut y dylid rheoli presgripsiynu a chyflenwi.
- 4.7.2 Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai ein cynigion gyd-fynd â'r hyn sydd ar waith ar gyfer rolau tebyg mewn proffesiynau gofal iechyd eraill. Cyfeiriwyd o dro i dro at feddygon dosbarthu meddygaeth a oedd, i rai, â mwy o ryddid i ddilyn eu barn broffesiynol wrth benderfynu a oedd yn ddiogel presgripsiynu a chyflenwi.
- 4.7.3 Tynnodd ychydig o ymatebwyr sylw at rai o'r gwahaniaethau yn y gwasanaethau fferyllol dan gontract y GIG mewn gwahanol rannau o Brydain, yn enwedig yn yr Alban.
- 4.7.4 Nododd ychydig o ymatebwyr y byddai'n ofynnol i bresgripsiynwyr fferyllol ffurfio barn broffesiynol ynghylch a fyddai'n ddiogel presgripsiynu a chyflenwi ar sail eu cwmpas cymhwysedd a'u cyfrifoldebau dyletswydd gofal.

## 5. Mesurau diogelwch ar gyfer presgripsiynu o bell

Tabl 6: Barn ar y mesurau diogelwch ar gyfer presgripsiynu o bell

C9. Oes unrhyw fesurau diogelwch eraill y dylid eu rhoi ar waith i sicrhau bod rhai meddyginiaethau yn cael eu presgripsiynu'n ddiogel o bell?	N a % o unigolion	N a % o sefydliadau	Cyfanswm N o % ymatebwyr
Oes	67 (27%)	21 (57%)	88 (31%)
Nac oes	96 (39%)	13 (35%)	109 (38%)
Ddim yn gwybod	84 (34%)	3 (8%)	87 (31%)
Cyfanswm N ymatebwyr	247 (100%)	37 (100%)	284(100%)

### 5.1 Crynodeb o Dabl 6

- 5.1.1 Fel yr adlewyrchir yn y ffigurau yn Nhabl 6, cymysg oedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn.
- 5.1.2 Roedd cyfran ychydig uwch o'r holl ymatebwyr o'r farn nad oedd unrhyw fesurau diogelwch eraill y dylid eu rhoi ar waith i sicrhau bod rhai meddyginiaethau'n cael eu presgripsiynu'n ddiogel ac o bell (38%), o gymharu â'r rhai a oedd o'r farn bod (31%). Roedd cyfran debyg o ymatebwyr yn nodi nad oeddent yn gwybod a oedd unrhyw fesurau diogelwch eraill y dylid eu rhoi ar waith (31%).
- 5.1.3 Roedd cyfran lawer uwch o sefydliadau (57%) o'r farn bod angen mesurau diogelwch eraill o'i gymharu ag unigolion (27%). Fodd bynnag, nododd cyfran uwch o unigolion (34%) nad oeddent yn gwybod o'i gymharu â sefydliadau (8%).
- 5.1.4 Rhoddodd ychydig dros chwarter yr ymatebwyr sylwadau esboniadol yn eu hymateb i'r cwestiwn hwn. Mae'r canlynol yn ddadansoddiad o'r themâu a geir yn y sylwadau hyn.

### 5.2 Crynodeb o themâu

- 5.2.1 Soniwyd yn helaeth gan ymatebwyr am ar rai o'r pryderon mwy cyffredinol ac ymarferol sy'n gysylltiedig â phresgripsiynu o bell. Er bod rhai wedi lleisio eu gwrthwynebiad ac yn teimlo ei fod yn agored i gael ei gam-drin, roedd eraill o'r farn y gall presgripsiynu o bell fod yn llwyddiannus yn dibynnu ar sut y caiff ei weithredu.
- 5.2.2 Pwysleisiodd llawer o ymatebwyr hefyd bwysigrwydd cael mynediad at gofnodion meddygol cadarn wrth benderfynu a oedd yn briodol presgripsiynu o bell. Tynnodd ymatebwyr sylw hefyd at y mesurau diogelwch ychwanegol y credent y dylid eu hystyried fel rhan o'r gofynion ar gyfer presgripsiynu o bell a disgrifiwyd sut y gellid cryfhau'r cynigion.

### 5.3 Pryderon ynghylch presgripsiynu o bell

- 5.3.1 Roedd ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn canolbwyntio'n fwy cyffredinol ar rai o'r risgiau sy'n gysylltiedig â phresgripsiynu o bell fel dull presgripsiynu. Y rheswm a roddwyd amlaf gan ymatebwyr oedd y canfyddiad ei fod yn ffordd israddol o bresgripsiynu o'i gymharu â'r asesiad wyneb yn wyneb mwy traddodiadol, ac felly roedd ganddo risgiau mwy cynhenid i ddiogelwch cleifion.

- 5.3.2 Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo'n gryfach byth a dywedon nhw na ddylai presgripsiynu o bell ddigwydd mewn unrhyw amgylchiadau ac y dylid annog iddo beidio â digwydd ym mhob proffesiwn gofal iechyd. Roedd nifer fach o ymatebwyr hefyd yn amheus o rôl y cyflogwr mewn presgripsiynu o bell ac yn teimlo eu bod yn cael eu cymell gan ystyriaethau masnachol yn unig.
- 5.3.3 Rhoddodd rhai ymatebwyr eu barn ar yr amgylchiadau pan fo presgripsiynu o bell yn dderbyniol a phryd nad oedd yn dderbyniol. Er bod rhai'n llwyr wrthwynebu presgripsiynu o bell fel cysyniad, roedd eraill yn teimlo y gallai'r canllaw ehangu mwy ar y mathau o bresgripsiynu o bell sydd ar gael i sicrhau bod y canllawiau'n fwy cadarn.
- 5.3.4 Mynegodd ychydig o ymatebwyr bryderon ynghylch sut y byddai'r canllawiau'n gweithio'n ymarferol. Er enghraifft, awgrymwyd y byddai'r cynigion yn rhoi mwy o bwysau ar feddygon teulu i ymateb i geisiadau o fewn yr amserlen y byddai ei hangen i bresgripsiynu ar-lein.
- 5.3.5 Roedd ychydig o ymatebwyr yn pryderu am y cynigion ynghylch presgripsiynu meddyginiaethau cosmetig nad ydynt yn rhai llawfeddygol o bell. Yn benodol, nid oeddent yn credu bod unrhyw amgylchiadau lle y gellid ystyried bod presgripsiynu meddyginiaethau o'r fath o bell yn 'frys'. Awgrymwyd y dylid diwygio'r geiriad yn y canllawiau i adlewyrchu hyn.

## 5.4 Meddyginiaethau y mae perygl y gellir eu camddefnyddio

- 5.4.1 Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod angen cael mesurau diogelwch ychwanegol ar waith ar gyfer rhai meddyginiaethau wrth bresgripsiynu o bell. Roedd y rhain yn cynnwys meddyginiaethau sy'n gallu cael eu cam-drin neu eu camddefnydd fel carthyddion, opioidau, gabapentin a pregabalin. Tynnodd eraill sylw at gyffuriau sydd wedi eu rheoli, meddyginiaethau presgripsiwn yn unig a meddyginiaethau dros y cownter yr oedd angen mesurau diogelwch ar waith ar eu cyfer.
- 5.4.2 Roedd ychydig o ymatebwyr yn teimlo y byddai cael 48 awr o fwch rhwng presgripsiynu a chyhoeddi'r presgripsiwn ar gyfer cyffuriau sy'n agored i gael eu cam-drin yn caniatáu i'r gwiriadau perthnasol gael eu gwneud gyda'r presgripsiynydd arferol cyn cyflenwi. Roedd un ymatebydd o'r farn bod angen ffordd fwy cadarn o benderfynu a oes gwir angen clinigol i bresgripsiynu meddyginiaethau a all gael eu cam-drin.
- 5.4.3 Roedd ychydig o ymatebwyr yn anghytuno â rhai o'r cynigion a amlinellwyd yn y canllawiau. Yn benodol, roedd y cynnig bod 'meddyginiaethau sydd angen eu monitro neu eu rheoli'n barhaus' yn anaddas i gael eu presgripsiynu neu eu cyflenwi o bell, yn creu problem i rai. Roedd ychydig o ymatebwyr o'r farn bod rhai cyflyrau cronig sy'n gofyn am reolaeth barhaus fel thiopurines ar gyfer clefyd llidiol y coluddyn yn addas i gael presgripsiynu o bell ar eu cyfer. Awgrymwyd y byddai dull o ddelio gyda phob achos yn unigol yn gweithio'n well yn ymarferol yn hytrach na'r ffordd y mae'r canllawiau wedi eu geirio ar hyn o bryd.

## 5.5 Gwahanol fathau o bresgripsiynu o bell

- 5.5.1 Gan gydnabod bod presgripsiynu o bell yn arfer fwyfwy cyffredin, ceisiodd llawer o ymatebwyr egluro sut y gallai ymgynghoriadau a arweinir gan dechnoleg weithio'n ddiogel yn ymarferol. Nododd rhai sut y gallai fideo-gynadledda a fideo-ffonio helpu i sicrhau bod anghenion y claf yn hawdd eu hadnabod trwy gliwiau gweledol fel mynegiant wyneb ac iaith y corff. Teimlai ychydig o ymatebwyr y gallai'r canllaw wneud mwy i dynnu sylw at y gwahanol fathau o bresgripsiynu o bell sydd ar gael.

- 5.5.2 Roedd un ymatebydd yn teimlo hefyd y gallai'r math hwn o bresgripsiynu o bell helpu i ddiffinio opsiynau triniaeth a chymell y presgripsiynydd i asesu anghenion y claf yn gliriach yn hytrach na thros dudalen we, fel sy'n wir am fathau eraill o bresgripsiynu o bell.
- 5.5.3 Roedd dyrnoid o ymatebwyr yn teimlo bod y canllawiau'n canolbwyntio gormod ar agwedd ar-lein presgripsiynu o bell ac nad oeddent yn ystyried am y gwahanol ffyrdd y gellir presgripsiynu o bell. Tynnodd rhai sylw at ymgynghoriadau ffôn a oedd yn gyffredin mewn clinigau y mae fferyllwyr yn eu harwain, er enghraifft.

## 5.6 Mynediad at gofnodion meddygol llawn

- 5.6.1 Roedd nifer gymharol uchel o ymatebwyr yn teimlo ei bod yn bwysig i bresgripsiynwyr fferyllol gael mynediad at gofnodion meddygol llawn cleifion cyn penderfynu a oedd yn ddiogel presgripsiynu o bell. Yn yr un modd, roedd ychydig o ymatebwyr hefyd o'r farn y dylai rhannu gwybodaeth am bresgripsiynau â gweithwyr iechyd proffesiynol eraill, fel meddygon teulu cleifion, fod yn fwy na 'rhagweithiol' fel y nodir yn y canllawiau.
- 5.6.2 Fodd bynnag, fel y nodir yn adran 6.4, roedd dibynadwyedd cofnodion meddygol yn broblem i rai ymatebwyr a oedd o'r farn ei bod yn gyffredin i'r cofnodion fod wedi dyddio neu ddim yn hygyrch mewn gwahanol leoliadau. Felly, roedd llawer oedd â'r farn hon yn teimlo na ddylai cofnodion meddygol ar eu pennau eu hunain fod yn rhagofyniad i fferyllwyr bresgripsiynu o bell.
- 5.6.3 Roedd ychydig o ymatebwyr o'r farn bod cael sianeli cyfathrebu clir a dirwystr rhwng presgripsiynwyr fferyllol a presgripsiynwyr arferol cleifion yn bwysicach wrth bresgripsiynu o bell na gyda'r dulliau presgripsiynu traddodiadol. Awgrymwyd hefyd, os nad oedd presgripsiynydd arferol ar gael, na ddylai'r fferylllydd bresgripsiynu o gwbl.
- 5.6.4 Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo ei bod yn hanfodol i'r presgripsiynydd fferyllol wirio'r cofnodion gofal cryno pan fo meddyginiaethau risg uchel yn cael eu presgripsiynu.

## 5.7 Mesurau diogelwch eraill

- 5.7.1 Nododd ymatebwyr i'r cwestiwn awgrymiadau ynghylch pan fyddai angen mesurau diogelwch ychwanegol i fferyllwyr bresgripsiynu'n ddiogel. Cyfeiriwyd yn aml at y mesurau a roddwyd ar waith gan y Comisiwn Ansawdd Gofal gydag ychydig o ymatebwyr yn galw am fwy o gysondeb rhwng y rheolyddion.
- 5.7.2 Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod angen cynnal gwiriadau adnabod mwy trylwyr wrth bresgripsiynu o bell. Byddai hyn yn sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu presgripsiynu i'r person y bwriadwyd nhw ar ei gyfer ac o ganlyniad yn sicrhau mwy o dryloywder yn y broses bresgripsiynu.
- 5.7.3 Ymhlith y mesurau diogelwch eraill a awgrymwyd gan ymatebwyr roedd:
- cael ail wiriad rheoliadol
  - cael ymgynghoriad cychwynnol wyneb yn wyneb â'r presgripsiynydd arferol cyn bo presgripsiynu o bell yn bosibl
  - mecanwaith i asesu gallu wrth gynnal ymgynghoriad o bell
  - prosesau cliriach ar gyfer gofynion monitro
  - tystiolaeth ffotograffig o feddyginiaeth a gymerwyd yn flaenorol

- sicrhau bod staff dosbarthu meddyginiaethau wedi'u hyfforddi'n briodol i wirio hunaniaeth claf
- cael cyfyngiad ar nifer y cyffuriau a gyflenwir
- peidio â presgripsiynu o bell i blant
- gwahanu presgripsiynu o bell oddi wrth gyflenwi i leihau gwrthdaro buddiannau

## 6. Effaith y cynigion

### 6.1 Effaith y cynigion ar gleifion a'r cyhoedd

**Tabl 7:** Barn ar yr effaith y bydd y cynigion yn ei chael ar gleifion a'r cyhoedd

C11. Yn eich barn chi, pa fath o effaith y bydd ein cynigion yn ei chael ar gleifion a'r cyhoedd?	N a % o unigolion	N a % o sefydliadau	Cyfanswm N o % ymatebwyr
<b>Effaith gadarnhaol</b>	169 (68%)	20 (54%)	<b>189 (67%)</b>
<b>Effaith negyddol</b>	8 (3%)	1 (3%)	<b>9 (3%)</b>
<b>Effaith gadarnhaol a negyddol</b>	49 (20%)	12 (32%)	<b>61 (21%)</b>
<b>Dim effaith</b>	15 (6%)	1 (3%)	<b>16 (6%)</b>
<b>Ddim yn gwybod</b>	6 (2%)	3 (8%)	<b>9 (3%)</b>
<b>Cyfanswm N ymatebwyr</b>	<b>247 (100%)</b>	<b>37 (100%)</b>	<b>284 (100%)</b>

6.1.1 Fel y dengys Tabl 7, roedd mwyafrif yr ymatebwyr (67%) o'r farn y byddai'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar gleifion a'r cyhoedd, ac roedd 21% yn teimlo y byddent yn cael effaith gadarnhaol a negyddol ar gleifion a'r cyhoedd.

6.1.2 Ychydig iawn o ymatebwyr a oedd o'r farn y byddai'r cynigion yn cael effaith negyddol yn unig ar gleifion a'r cyhoedd (3%).

6.1.3 Roedd cyfran uwch o unigolion (68%) yn teimlo y byddai ein cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar gleifion a'r cyhoedd o'i gymharu â sefydliadau (54%) ac roedd mwy o sefydliadau (8%) yn nodi nad oedden nhw'n gwybod a fyddai'r cynigion yn cael effaith ar gleifion a'r cyhoedd, o'i gymharu ag ymatebwyr unigol (2%).

### 6.2 Effaith y cynigion ar bresgripsiynwyr fferyllol

**Tabl 8:** Barn ar yr effaith y bydd y cynigion yn ei chael ar bresgripsiynwyr fferyllol

C12. Yn eich barn chi, pa fath o effaith y bydd ein cynigion yn ei chael ar bresgripsiynwyr fferyllol?	N a % o unigolion	N a % o sefydliadau	Cyfanswm N o % ymatebwyr
<b>Effaith gadarnhaol</b>	164 (66%)	20 (54%)	<b>184 (65%)</b>
<b>Effaith negyddol</b>	12 (5%)	1 (3%)	<b>13 (5%)</b>

C12. Yn eich barn chi, pa fath o effaith y bydd ein cynigion yn ei chael ar bresgripsiynwyr fferyllol?	N a % o unigolion	N a % o sefydliadau	Cyfanswm N o % ymatebwyr
<b>Effaith gadarnhaol a negyddol</b>	57 (23%)	12 (32%)	<b>69 (24%)</b>
<b>Dim effaith</b>	8 (3%)	1 (3%)	<b>9 (3%)</b>
<b>Ddim yn gwybod</b>	6 (2%)	3 (8%)	<b>9 (3%)</b>
<b>Cyfanswm N ymatebwyr</b>	<b>247 (100%)</b>	<b>37 (100%)</b>	<b>284 (100%)</b>

6.2.1 Mae Tabl 8 yn dangos bod mwyafrif yr ymatebwyr yn teimlo y byddai'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol (65%) ar bresgripsiynwyr fferyllol.

6.2.2 Roedd tua chwarter yr holl ymatebwyr (24%) o'r farn y byddai'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol a negyddol ar bresgripsiynwyr fferyllol.

6.2.3 Roedd cyfran ychydig yn uwch o unigolion (5%) o'r farn y byddai'r cynigion yn cael effaith negyddol ar bresgripsiynwyr fferyllol o'i gymharu â sefydliadau (1%).

### 6.3 Effaith y cynigion ar weithwyr fferyllol proffesiynol

**Tabl 9:** Barn ar yr effaith y bydd y cynigion yn ei chael ar weithwyr fferyllol proffesiynol

C13. Yn eich barn chi, pa fath o effaith y bydd ein cynigion yn ei chael ar weithwyr fferyllol proffesiynol eraill?	N a % o unigolion	N a % o sefydliadau	Cyfanswm N o % ymatebwyr
<b>Effaith gadarnhaol</b>	145 (59%)	17 (46%)	<b>162 (57%)</b>
<b>Effaith negyddol</b>	13 (5%)	1 (3%)	<b>14 (5%)</b>
<b>Effaith gadarnhaol a negyddol</b>	41 (17%)	8 (22%)	<b>49 (17%)</b>
<b>Dim effaith</b>	25 (10%)	8 (22%)	<b>33 (12%)</b>
<b>Ddim yn gwybod</b>	23 (9%)	3 (8%)	<b>26 (9%)</b>
<b>Cyfanswm N ymatebwyr</b>	<b>247 (100%)</b>	<b>37 (100%)</b>	<b>284 (100%)</b>

6.3.1 Fel yr amlygir yn Nhabl 9, ychydig iawn o ymatebwyr (5%) a oedd o'r farn y byddai'r cynigion yn cael effaith negyddol ar weithwyr fferyllol proffesiynol. Yn hytrach, roedd y mwyafrif o'r farn y byddai'r cynigion naill ai'n cael effaith gadarnhaol (57%) neu effaith gadarnhaol a negyddol (17%).

6.3.2 Roedd tua un o bob pump o'r holl ymatebwyr o'r farn na fyddai'r cynigion yn cael unrhyw effaith (12%) neu nad oeddent yn gwybod (9%) pa fath o effaith y bydd y cynigion yn ei chael ar weithwyr fferyllol proffesiynol.

6.3.3 Roedd cyfran uwch o unigolion (59%) o'r farn y byddai'r effaith ar weithwyr fferyllol proffesiynol yn gadarnhaol o'i gymharu â sefydliadau (46%).

6.3.4 Roedd cyfran uwch o sefydliadau (22%) o'r farn na fyddai unrhyw effaith ar weithwyr fferyllol proffesiynol o'i gymharu ag unigolion (10%).

## 6.4 Effaith y cynigion ar gyflogwyr neu berchnogion fferyllfeydd

**Tabl 10:** Barn ar yr effaith y bydd y cynigion yn ei chael ar gyflogwyr neu berchnogion fferyllfeydd

C14. Yn eich barn chi, pa fath o effaith y bydd ein cynigion yn ei chael ar gyflogwyr neu berchnogion fferyllfeydd?	N a % o unigolion	N a % o sefydliadau	Cyfanswm N o % ymatebwyr
Effaith gadarnhaol	130 (53%)	13 (35%)	<b>143 (50%)</b>
Effaith negyddol	18 (7%)	2 (5%)	<b>20 (7%)</b>
Effaith gadarnhaol a negyddol	51 (21%)	16 (43%)	<b>67 (24%)</b>
Dim effaith	10 (4%)	1 (3%)	<b>11 (4%)</b>
Ddim yn gwybod	38 (15%)	5 (14%)	<b>43 (15%)</b>
<b>Cyfanswm N ymatebwyr</b>	<b>247 (100%)</b>	<b>37 (100%)</b>	<b>284 (100%)</b>

6.4.1 Mae Tabl 10 yn dangos, o'i gymharu â'r grwpiau eraill y soniwyd amdanynt uchod, bod llai o ymatebwyr o'r farn y byddai'r effaith ar gyflogwyr neu berchnogion fferyllfeydd yr un mor gadarnhaol. Fodd bynnag, roedd hanner yr holl ymatebwyr yn dal i gredu y byddai'r effaith gyffredinol yn un gadarnhaol.

6.4.2 Roedd cyfran lawer uwch o sefydliadau (43%) o'r farn y byddai'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol a negyddol ar gyflogwyr neu berchnogion fferyllfeydd o'i gymharu ag unigolion (21%). Fodd bynnag, roedd mwy o unigolion (53%) o'r farn y byddai'r effaith gyffredinol yn gadarnhaol o'i gymharu â sefydliadau (35%).

6.4.3 Rhoddodd hanner yr holl ymatebwyr sylwadau esboniadol i'r cwestiwn hwn. Mae'r canlynol yn ddadansoddiad o'r themâu a geir yn y sylwadau hyn.

## 6.5 Crynodeb o'r effaith y caiff y cynigion ar gleifion a'r cyhoedd, presgripsiynwyr fferyllol, a chyflogwyr neu berchnogion fferyllfeydd

6.5.1 Cymysg oedd y safbwyntiau ar yr effaith gyffredinol y byddai'r cynigion yn ei chael ar y pedwar grŵp a nodwyd uchod. Er bod llawer wedi amlinellu sut y byddai'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol ac yn cynyddu diogelwch y cyhoedd a chleifion ac yn darparu cefnogaeth ychwanegol i bresgripsiynwyr fferyllwyr, roedd eraill o'r farn bod y canllawiau'n rhy gaeth mewn rhannau neu y byddai'n ychwanegu at faich a llwyth gwaith presgripsiynwyr fferyllol a pherchnogion fferyllfeydd.

## 6.6 Cynyddu diogelwch cleifion a'r cyhoedd

6.6.1 Roedd nifer fawr o ymatebwyr o'r farn y byddai diogelwch y cyhoedd a chleifion yn gwella, wedi i'r canllawiau gael eu gweithredu.

6.6.2 Roedd y rhesymau pam roedd ymatebwyr yn rhannu'r farn hon yn amrywiol. Roedd rhai'n teimlo y byddai'r cynigion yn codi safonau'r proffesiwn fferyllol yn fwy cyffredinol, ac felly'n arwain at weithlu mwy medrus. Roedd eraill o'r farn y gallai cynnig arweiniad mwy cadarn a chlr i fferyllwyr ei ddilyn helpu i gynyddu diogelwch y cyhoedd a chleifion.

6.6.3 Er eu bod yn cydnabod y byddai'r effaith gadarnhaol yn fwy na'r effaith negyddol i gleifion a'r cyhoedd, roedd eraill yn rhybuddio y gallai fod angen diwygio'r canllawiau. Ailadroddodd



ychydig o ymatebwyr eu gwrthwynebiad i bresgripsiynu o bell gan nodi y byddai risgiau posibl i gleifion a'r cyhoedd pe na bai'r agwedd hon yn cael ei chryfhau.

## **6.7 Cynyddu'r cymorth sydd ar gael i bresgripsiynwyr fferyllol**

- 6.7.1 Roedd llawer o ymatebwyr yn croesawu'r canllawiau gan eu bod yn cydnabod ac yn cefnogi rolau a chyfrifoldebau presgripsiynwyr fferyllol yn fwy cyffredinol. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai'r canllawiau'n grymuso presgripsiynwyr fferyllol a'u galluogi felly i bresgripsiynu'n fwy hyderus.
- 6.7.2 Awgrymodd ychydig o ymatebwyr hefyd y byddai canllawiau newydd yn y maes hwn yn hybu rôl y presgripsiynydd fferyllydd mewn gofal iechyd ac y gallai hyn wella morâl a ffydd y cyhoedd yn y proffesiwn.
- 6.7.3 Roedd gan rai ymatebwyr farn lai cadarnhaol. Er enghraifft, nodwyd y gallai'r canllawiau rwystro rhai presgripsiynwyr fferyllol rhag chwarae rhan weithredol wrth ail-bresgripsiynu, cysoni meddyginiaethau a'r broses ryddhau.
- 6.7.4 Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y gallai'r cynigion gael effaith fwy eang nag a ragwelwyd i ddechrau. Er enghraifft, nododd ychydig o ymatebwyr y gallai'r cynigion wella'r sector fferylliaeth yn fwy cyffredinol pe bai mwy o fferyllwyr yn dod yn bresgripsiynwyr yn y dyfodol.

## **6.8 Canllawiau'n rhy gaeth**

- 6.8.1 Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn y gallai'r canllawiau greu rhai rhwystrau diangen yn y broses bresgripsiynu a'i bod yn rhy gaeth i bresgripsiynwyr fferyllol allu cyflawni eu swyddogaethau'n effeithlon. Yn benodol, roedd y cynigion ynghylch cyrchu a rhannu cofnodion meddygol yn bryder i lawer a oedd yn teimlo bod y cynigion yn rhy letchwith.
- 6.8.2 Roedd rhai pryderon y gallai'r cynigion or-gymhlethu dyletswyddau'r presgripsiynydd fferyllol ac y gallai hyn fod yn niweidiol mewn lleoliadau deinamig fel fferyllfeydd cymunedol.
- 6.8.3 Roedd gan ychydig o ymatebwyr farn ychydig yn gryfach ac roeddent yn teimlo bod y cynigion yn mynd yn rhy bell. Roeddent yn credu bod naws y canllawiau o'r cychwyn yn negyddol ac yn tansilio rôl presgripsiynwyr fferyllol ac y gellid gwneud mwy i gywain barn y proffesiwn ehangach.
- 6.8.4 Roedd lleiafrif bach yn teimlo y gallai'r canllawiau ei gwneud hi'n anos i gleifion gael y feddyginiaeth sydd ei hangen arnynt. Roedd hyn ar y sail y byddai presgripsiynwyr fferyllol yn mynd yn rhy wrth-risg i'w presgripsiynu'n hyderus.
- 6.8.5 Er bod llawer o ymatebwyr o'r farn bod y canllawiau'n gyfyngol, roedd rhai o'r farn bod hyn yn debygol o fod yn fwy o broblem yn y tymor byr yn hytrach na'n rhywbeth hir dymor. Roedd ychydig o'r farn, wedi i berchnogion fferyllfeydd, cyflogwyr a fferyllwyr addasu eu harferion gwaith yn unol â'r canllawiau, y gallent fod yn llai cyfyngol yn y tymor hir gan y byddai gweithwyr wedi ymgyfarwyddo â'r drefn.

## **6.9 Cynyddu'r baich a'r llwyth gwaith**

- 6.9.1 Roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo y gallai'r cynigion yn y canllawiau gynyddu'r llwyth gwaith a'r gofynion a ddisgwylir gan bresgripsiynwyr fferyllol a'r tîm fferyllol ehangach. Roedd y cynnydd mewn gwaith gweinyddol a gwaith papur, a'r amser fyddai ei angen ar gyfer adolygu prosesau mewnol i sicrhau eu bod yn ateb gofynion y canllawiau, yn ofid i rai.

- 6.9.2 Nododd ychydig o ymatebwyr mai'r gofynion i gael mynediad at gofnodion meddygol fyddai'n cael yr effaith fwyaf ar y tîm fferyllol ehangach. Roedd pryderon y gallai dynnu oddi ar rôl y fferyllfydd pe bai gofyniad i gynnal gwiriadau mwy trylwyr wrth gyrchu a rhannu cofnodion meddygol. Roedd rhai hefyd yn teimlo y gallai hyn gael sgil effaith ar ofal cleifion pe bai darparu gwasanaeth yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl.
- 6.9.3 Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo hefyd y byddai'r cynigion yn cynyddu'r craffu ar berchnogion fferyllfydd a chyflogwyr fyddai â'r dasg o sicrhau bod canllawiau'n cael eu gweithredu yn ôl y bwriad. Roedd ychydig o ymatebwyr o'r farn y byddai angen i gyflogwyr ofalu eu bod yn gwahanu rôl y presgripsiynydd a'r dosbarthwr meddyginiaethau yn ffurfiol yn y dyfodol ynghyd â sicrhau bod digon o staff yn y fferyllfa ar gyfer y newidiadau arfaethedig. Roedd hyn ar y sail y byddai rhai fferyllwyr manwerthu cymunedol yn cael eu denu at gyflawni rôl presgripsiynydd ac y byddai angen i berchnogion ymateb i hyn.
- 6.9.4 Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo nad oedd y canllawiau'n cyd-fynd â'r hyn sydd ar waith ar gyfer proffesiynau ieuchyd eraill. Roedd pryderon y byddai baich a llwyth gwaith meddygon teulu a nyrsys yn cynyddu pe na bai gan bresgripsiynwyr fferyllwyr hyder i bresgripsiynu a chyflenwi.

## 6.10 Materion eraill

6.10.1 Mae'r canlynol yn sampl o rai o'r materion llai aml a godwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn:

- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn na fyddai'n bosibl asesu'r effaith y byddai'r cynigion yn ei chael nes i'r canllawiau gael eu gweithredu'n llawn.
- Roedd dyrnaid o ymatebwyr yn teimlo na fyddai'r canllaw yn cael unrhyw effaith neu'n cael effaith negyddol. Roedd y rhesymau dros hyn yn cynnwys na fyddai'r cyhoedd yn sylwi ar y newidiadau tra bo fferyllwyr a chyflogwyr yn gweld eu bod yn cyfyngu eu harfer mewn rhyw ffordd.
- Roedd rhai ymatebwyr hefyd o'r farn y gallai cyflogwyr ecsbloetio neu ddylanwadu ar arferion presgripsiynu presgripsiynwyr fferyllol wedi ôl i'r canllawiau gael eu rhoi ar waith. Rhybuddiodd eraill y gallai cyflogwyr neu berchnogion geisio ymelwa'n ariannol ar y cynigion.
- Roedd pryder ymhlith rhai nad oedd y canllawiau wedi llawn ystyried rôl presgripsiynwyr fferyllol mewn ysbytai. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y gallai'r cynigion ddiethrio'r grŵp hwn o bresgripsiynwyr ac y gellid ystyried hyn yn effaith negyddol.

## 7. Effaith y cynigion ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig penodol

**Tabl 11:** Barn ar ein cynigion yn cael effaith negyddol ar unrhyw unigolion neu grwpiau sy'n rhannu unrhyw un neu rai o'r nodweddion gwarchoddedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010

C16. Ydych chi'n meddwl y bydd ein cynigion yn cael effaith negyddol ar rai unigolion neu grwpiau sy'n rhannu unrhyw un neu rai o'r nodweddion gwarchoddedig a restrir isod <sup>1</sup> ?	N a % o unigolion	N a % o sefydliadau	Cyfanswm N o % ymatebwyr
Oedran	19 (8%)	1 (3%)	20 (7%)
Anabledd	14 (6%)	0 (0%)	14 (5%)
Ailbennu rhywedd	11 (4%)	0 (0%)	11 (4%)
Priodas a phartneriaeth sifil	8 (3%)	0 (0%)	8 (3%)
Beichiogrwydd a mamolaeth	10 (4%)	1 (3%)	11 (4%)
Hil	8 (3%)	0 (0%)	8 (3%)
Crefydd neu gred	10 (4%)	0 (0%)	10 (4%)
Rhyw	2 (<1%)	1 (3%)	3 (1%)
Cyfeiriadedd rhywiol	8 (3%)	0 (0%)	8 (3%)
Dim un o'r uchod	217 (88%)	36 (97%)	253 (89%)

### 7.1 Effaith y cynigion

- 7.1.1 Fel y dengys Tabl 11, roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr (89%) o'r farn na fyddai ein cynigion yn gwahaniaethu nac yn anfanteisio'n anfwriadol unrhyw unigolion neu grwpiau sy'n rhannu unrhyw un neu rai o'r nodweddion gwarchoddedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010.
- 7.1.2 Y nodwedd warchoddedig fwyaf cyffredin yr oedd ymatebwyr yn credu y byddai ein cynigion yn cael effaith negyddol arni oedd unigolion neu grwpiau ag anabledd (5%), wedyn ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth a chrefydd neu gred (4% yr un).
- 7.1.3 Roedd bron pob sefydliad (97%) o'r farn na fyddai'r cynigion yn cael effaith andwyol ar grwpiau neu unigolion sy'n rhannu'r nodweddion gwarchoddedig a nodwyd uchod. 88% oedd y ganran ar gyfer hyn ymhlith unigolion.

**Tabl 12:** Barn ar ein cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar unrhyw unigolion neu grwpiau sy'n rhannu unrhyw un neu o'r nodweddion gwarchoddedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010

<sup>1</sup> Gofynnwyd i ymatebwyr roi tic ar gyfer pob un perthnasol

Q17. Ydych chi'n meddwl y bydd ein cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar rai unigolion neu grwpiau sy'n rhannu unrhyw un neu rai o'r nodweddion gwarchoddedig a restrir isod <sup>2</sup> ?	N a % o unigolion	N a % o sefydliadau	Cyfanswm N o % ymatebwyr
Oedran	43 (17%)	2 (5%)	45 (16%)
Anabledd	40 (16%)	2 (5%)	42 (15%)
Ailbennu rhywedd	29 (12%)	3 (8%)	32 (11%)
Priodas a phartneriaeth sifil	27 (11%)	3 (8%)	30 (11%)
Beichiogrwydd a mamolaeth	32 (13%)	3 (8%)	35 (12%)
Hil	26 (11%)	2 (5%)	28 (10%)
Crefydd neu gred	26 (11%)	2 (5%)	28 (10%)
Rhyw	31 (13%)	3 (8%)	34 (12%)
Cyfeiriadedd rhywiol	27 (11%)	3 (8%)	30 (11%)
Dim un o'r uchod	199 (81%)	34 (92%)	233 (82%)

7.1.4 Mae Tabl 12 yn dangos nad oedd 82% o ymatebwyr o'r farn y byddai ein cynigion o fudd i unrhyw unigolyn neu grwpiau sy'n rhannu unrhyw un neu rai o'r nodweddion gwarchoddedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Roedd y rhai a oedd o'r farn y byddai ein cynigion o fudd i bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig yn nodi'r canlynol amlaf: oedran (16%), anabledd (15%) a beichiogrwydd a mamolaeth (12%) a rhyw (12%).

7.1.5 Rhoddodd ychydig dros un rhan o bump o'r ymatebwyr adborth penagored ynghylch a fyddai ein canllaw arfaethedig ar gyfer presgripsiynwyr fferyllol yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar unrhyw unigolion neu grwpiau sy'n rhannu unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r canlynol yn ddadansoddiad o'r themâu a geir yn y sylwadau hyn.

## 7.2 Crynodeb o'r effaith y caiff y cynigion ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig penodol

7.2.1 Yn gyffredinol, canolbwyntiodd ymatebwyr i'r cwestiwn hwn mwy ar yr effaith gadarnhaol y byddai'r cynigion yn ei chael ar y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig penodol, yn hytrach na'r agwedd negyddol. Er gwaethaf hyn, y thema fwyaf cyffredin a nodwyd yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn oedd bod y canllawiau'n rhy gaeth. Esboniodd nifer fawr o ymatebwyr hefyd eu rhesymau dros deimlo na fyddai'r canllaw yn cael unrhyw effaith mewn perthynas â nodweddion gwarchoddedig.

## 7.3 Cefnogaeth gyffredinol

7.3.1 Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn y byddai'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol gyffredinol ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig penodol. Wrth egluro eu rhesymau, roeddent yn

<sup>2</sup> Gofynnwyd i ymatebwyr rhoi tic ar gyfer pob un perthnasol

teimlo bod y cynigion yn deg ac yn fuddiol i bawb ac na allent ragweld y cynigion yn cael effaith negyddol ar y grwpiau a nodwyd yn y cwestiwn hwn.

- 7.3.2 Nododd ychydig o ymatebwyr y byddai cael arweiniad clir a chadarn yn y maes hwn yn sicrhau na fyddai'n cael effaith negyddol ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig penodol.

## 7.4 Canllawiau'n rhy gaeth

- 7.4.1 Roedd rhai o'r ymatebwyr a roddodd adborth yn poeni bod y canllawiau'n rhy llym ac y gallai hyn effeithio'n andwyol ar bob unigolyn, gan gynnwys y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig penodol.
- 7.4.2 Dywedon nhw y gallai presgripsiynwyr fferyllwyr fod yn fwy amharod i bresgripsiynu i rai grwpiau o unigolion ar sail yr argymhellion a amlinellir yn y canllawiau. Ystyriwyd y byddai'r risg fwyaf i bobl ifanc a phobl oedrannus, rhai oedd yn feichiog, a rhai oedd yn bwydo ar y fron ac yn anabl.
- 7.4.3 Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai'r effaith fwyaf ar bobl sy'n ei chael hi'n anodd rhyngweithio wyneb yn wyneb pe na bai'r cynigion ynghylch presgripsiynu o bell yn cael eu gweithredu yn ôl y bwriad.
- 7.4.4 Nododd ychydig o ymatebwyr y gallai rhai unigolion sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig weld oedi wrth dderbyn eu meddyginiaethau, pe bai'n rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol ail-werthuso eu cymhwysedd ar ôl i'r canllawiau gael eu gweithredu.
- 7.4.5 Roedd dyrnaid o ymatebwyr yn poeni y gallai'r cynigion effeithio ar hawl claf at gyfrinachedd. Tynnodd rhai sylw at bobl ag anabledau meddwl llai amlwg na fyddai, o bosibl, eisiau i fwy nag un gweithiwr gofal iechyd proffesiynol gael mynediad at eu cofnodion meddygol, ar unrhyw adeg benodol.
- 7.4.6 Roedd yr amser y gallai ei gymryd i gael mynediad at gofnodion meddygol cleifion hefyd yn poeni rhai ymatebwyr. Roeddent yn teimlo y gallai oedi wrth bresgripsiynu meddyginiaeth effeithio'n fawr ar y rhai sy'n feichiog neu'n anabl, er enghraifft.

## 7.5 Dim effaith

- 7.5.1 Roedd nifer fawr o ymatebwyr o'r farn na fyddai'r cynigion yn cael unrhyw effaith o gwbl ar y grwpiau o bobl a nodwyd uchod. Nododd llawer y byddai'r canllawiau yr un mor berthnasol i bob unigolyn neu grŵp ond y byddai'n dibynnu ar sut y cant eu dehongli neu eu rhoi ar waith yn ymarferol.

## 7.6 Materion eraill

- 7.6.1 Mae'r isod yn sampl o rai o'r materion llai aml a godwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn:
- Nododd rhai, y gallai'r canllawiau helpu i gynyddu ymwybyddiaeth o rôl presgripsiynwyr fferyllol ac y gallai hyn helpu pobl hŷn i fanteisio ar wasanaethau ychwanegol.
  - Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai'r cynigion yn fuddiol i bawb gan y byddent yn cynyddu'r gwasanaethau fyddai ar gael.
  - Roedd ychydig o ymatebwyr o'r farn y byddai'r cynigion yn cynyddu diogelwch, effeithiolrwydd ac ansawdd gofal cleifion.
  - Galwodd ymateb gan sefydliad i fferyllwyr fabwysiadu dull sydd ag unigolion yn ganolog iddo er mwyn sicrhau bod y canllawiau'n cael effaith gadarnhaol. Roeddent o'r farn y dylai presgripsiynwyr fferyllwyr gydnabod anghenion a hunaniaethau amrywiol cleifion gan gynnwys anghenion iechyd penodol pobl LHDT.

## Atodiad 1: Crynodeb o'n cynigion

Mae'r canllawiau ar gyfer presgripsiynwyr fferyllol yn adlewyrchu themâu ein safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol a'n safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig, er mwyn sicrhau bod cleifion yn derbyn gofal diogel ac effeithiol. Mae'n cynnwys gwybodaeth i berchnogion fferyllfeydd a chyflogwyr presgripsiynwyr fferyllol a mesurau diogelu ar gyfer presgripsiynu rhai meddyginiaethau o bell. Rydym hefyd wedi cynnwys adran ar feddyginiaethau cosmetig an-lawfeddygol yn ein canllaw. Yn benodol, gofynnem am farn ar y themâu canlynol.

### 1. Y prif feysydd ar gyfer presgripsiynu diogel ac effeithiol

Mae'r canllawiau'n amlinellu naw maes allweddol sy'n ymwneud â darparu presgripsiynu diogel ac effeithiol. Dyma nhw:

- derbyn cyfrifoldeb am bresgripsiynu'n ddiogel
- diweddarau gwybodaeth a phresgripsiynu o fewn lefel eu cymhwysedd
- gweithio mewn partneriaeth â phobl sy'n ceisio gofal a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill
- presgripsiynu mewn rhai amgylchiadau penodol
- presgripsiynu cynnyrch meddyginiaethol cosmetig nad ydynt yn llawfeddygol
- presgripsiynu o bell
- mesurau diogelwch ar gyfer presgripsiynu rhai meddyginiaethau o bell
- mynegi pryderon
- gwybodaeth i berchnogion fferyllfeydd a chyflogwyr presgripsiynwyr fferyllol

### 2. Amgylchiadau lle dylid ystyried a yw'n briodol presgripsiynu'n ddiogel

Mae'r canllawiau'n nodi pwysigrwydd cael yr holl wybodaeth feddygol berthnasol am berson a'i feddyginiaethau i sicrhau presgripsiynu diogel. Gellir cael hyn trwy gyfathrebu â presgripsiynydd arferol yr unigolyn neu drwy gael mynediad at gofnodion meddygol yr unigolyn. Rydym hefyd yn darparu gwybodaeth am yr hyn y mae'n **rhaid** i bresgripsiynwyr fferyllolwyr **ei wneud** er mwyn presgripsiynu'n ddiogel a'r amgylchiadau lle mae'n **rhaid iddynt benderfynu** a allant bresgripsiynu'n ddiogel.

### 3. Presgripsiynu a chyflenwi

Mae'r canllawiau'n nodi y dylai presgripsiynwyr fferyllol fel arfer gadw'r presgripsiynu cychwynnol ar wahân i gyflenwad y meddyginiaethau a bresgripsiynir, er mwyn amddiffyn diogelwch yr unigolyn. Mae'n disgrifio'r amgylchiadau eithriadol pan fydd angen presgripsiynu a chyflenwi, ac mae'n nodi rhai amgylchiadau pan all presgripsiynydd fferyllol bresgripsiynu a chyflenwi'n rheolaidd.

### 4. Mesurau diogelwch ar gyfer presgripsiynu categorïau penodol o feddyginiaethau

Mae'r canllawiau'n disgrifio'r amgylchiadau pan fo'n briodol presgripsiynu o bell, gan gynnwys ar-lein, ar gyfer rhai categorïau o feddyginiaethau. Mae'n nodi nad yw rhai meddyginiaethau'n addas i'w presgripsiynu o bell oni bai bod mesurau diogelwch pellach wedi'u rhoi ar waith i sicrhau eu bod yn glinigol briodol. Rydym wedi cynnig pum mesur diogelu ar gyfer sicrhau bod rhai categorïau o feddyginiaethau yn cael eu presgripsiynu'n ddiogel. Dyma nhw:

- mae gan y presgripsiynydd brosesau cadarn ar waith i wirio hunaniaeth y person er mwyn sicrhau bod y meddyginiaethau a bresgripsiynir yn mynd i'r person iawn
- mae'r presgripsiynydd wedi gofyn i'r unigolyn am fanylion cyswllt ei bresgripsiynydd arferol, megis ei feddyg teulu, ac am eu caniatâd i gysylltu â nhw ynglŷn â'r presgripsiwn
- bydd y presgripsiynydd yn rhannu'r holl wybodaeth berthnasol am ei bresgripsiwn yn rhagweithiol gyda'r gweithwyr iechyd proffesiynol eraill sydd ynghlwm wrth ofal yr unigolyn (er enghraifft ei feddyg teulu)
- mae gan y presgripsiynydd systemau ar waith fel y gall y tîm fferyllol gofnodi'n glir benderfyniad y presgripsiynydd i roi presgripsiwn os nad oes gan yr unigolyn bresgripsiynydd arferol fel meddyg teulu neu os nad oes caniatâd i rannu gwybodaeth
- mae'r presgripsiynydd yn gweithio o fewn canllawiau presgripsiynu cenedlaethol ar gyfer y DU a chanllawiau arfer da

## **5. Yr effaith y gallai'r canllawiau hyn ei chael ar grwpiau amrywiol o randdeiliaid**

Rydym yn awyddus i ddeall yr effaith y byddai ein cynigion yn ei chael ar wahanol randdeiliaid.

## Atodiad 2: Yngylch yr ymgynghoriad

### Trosolwg

Roedd yr ymgynghoriad ar agor am 12 wythnos, gan ddechrau ar 29 Mawrth 2019 ac yn gorffen ar 21 Mehefin 2019. Er mwyn sicrhau ein bod wedi clywed gan gynifer o unigolion a sefydliadau â phosibl:

- roedd arolwg ar-lein ar gael i unigolion a sefydliadau ei gwblhau yn ystod y cyfnod ymgynghori. Roeddem hefyd yn derbyn ymatebion drwy'r post ac e-bost
- trefnwyd cyfres o ddigwyddiadau rhanddeiliaid wedi'u hanelu at weithwyr fferyllol proffesiynol, defnyddwyr gwasanaethau fferyllol, sefydliadau a phartïon eraill â diddordeb
- cynhyrwyd becyn o ddeunyddiau y gallai sefydliadau ei ddefnyddio i ledaenu gwybodaeth am yr ymgynghoriad ymhlith eu haelodau, ac a oedd yn cynnwys cyflwyniad, copi cylchlythyr a chanllaw cyfryngau cymdeithasol.
- hyrwyddwyd yr ymgynghoriad trwy ddatganiad i'r wasg i'r cyfryngau masnach fferyllol, trwy ein cyfryngau cymdeithasol a thrwy ein e-fwletin Regulate.

### Arolwg

Cawsom gyfanswm o **290** o ymatebion ysgrifenedig i'n hymgynghoriad. Nododd **249** o'r ymatebwyr eu bod yn unigolion ac ymatebodd **41** ar ran sefydliad.

O'r ymatebion hyn, roedd **284** wedi ymateb i'r arolwg ymgynghori. Cwblhaodd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr hyn fersiwn ar-lein yr arolwg, gyda gweddill yr ymatebwyr yn cyflwyno eu hymateb trwy e-bost, gan ddefnyddio strwythur yr holiadur ymgynghori.

Ochr yn ochr â'r rhain, cawsom **chwe** ymateb gan unigolion a sefydliadau yn ysgrifennu'n fwy cyffredinol am eu barn.

### Digwyddiadau ar gyfer rhanddeiliaid

Defnyddiwyd y cwestiynau yn yr arolwg ar-lein hefyd fel strwythur ar gyfer trafodaethau yn ein digwyddiadau i randdeiliaid, gan ganiatáu i ni gywain barn pobl, a'i chynnwys yn ein dadansoddiad ymgynghori.

- Cynhaliwyd **un** digwyddiad i randdeiliaid yn Llundain a thrafodwyd ein cynigion mewn **un** gynhadledd. Daeth cyfuniad o fferyllwyr, technegwyr fferyllol, pobl sy'n gweithio ym maes addysg a hyfforddiant, cyflogwyr, fferyllwyr cyn-gofrestru, a chynrychiolwyr cyrff proffesiynol a chyrff masnach I'r rhain
- Cwrddwyd â **dau** randdeiliad arall i drafod y cynigion.
- Trefnwyd **tri** grŵp ffocws i gleifion, a gynhaliwyd yn Llundain, Glasgow a Chaerdydd.

Bu **67** o unigolion a chynrychiolwyr sefydliadau'n rhan o'r digwyddiadau hyn.



## Atodiad 3: Ein dull dadansoddi ac adrodd

### Trosolwg

Mae pob ymateb a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, gan gynnwys nodiadau o ddigwyddiadau i randdeiliaid a gweithgaredd cyfryngau cymdeithasol, wedi cael eu hystyried wrth ddatblygu ein dadansoddiad. Mae ein dull thematig yn caniatáu inni gynrychioli'n deg yr ystod eang o safbwyntiau a gyflwynwyd, boed wedi eu cyflwyno gan unigolion neu sefydliadau, a boed i ni eu derbyn yn ysgrifenedig, neu ar lafar mewn cyfarfodydd neu ddigwyddiadau.

Prif elfen yr ymgynghoriad hwn oedd arolwg hunan-ddethol, a gynhaliwyd ar blatfform ar-lein Smart Survey. Yn yr un modd ag unrhyw ymgynghoriad, rydym yn disgwyl bod unigolion a grwpiau sy'n ystyried bod y cynigion yn effeithio'n sylweddol arnyn nhw eu hunain, neu sydd â barn gref ar y pwnc, yn fwy tebygol o fod wedi ymateb.

Diben y dadansoddiad oedd adnabod themâu cyffredin ymhlith y rhai fu'n ymwneud â'r gweithgareddau ymgynghori yn hytrach na dadansoddi'r gwahaniaethau rhwng grwpiau penodol neu is-grwpiau o ymatebwyr.

Mae'r term 'ymatebwyr' a ddefnyddir drwy gydol y dadansoddiad yn cyfeirio at y rhai a gwblhaodd yr arolwg ymgynghori a'r rhai a fynychodd ein digwyddiadau rhanddeiliaid. Mae'n cynnwys unigolion a sefydliadau.

Os oedd gwahaniaethau sylweddol rhwng y safbwyntiau a roddwyd yn yr arolwg ymgynghori a'r rhai a godwyd mewn digwyddiadau rhanddeiliaid, amlygir y gwahaniaethau hyn yn y dadansoddiad.

Rhoddir manylion llawn proffil yr ymatebwyr i'r arolwg ar-lein yn Atodiad 4.

Er tryloywder, mae Atodiad 5 yn darparu rhestr o'r sefydliadau sydd wedi cyfrannu at yr ymgynghoriad drwy'r arolwg ar-lein, drwy e-bost a/neu drwy ddod i'n digwyddiadau i randdeiliaid.

Nodir cwestiynau'r ymgynghoriad yn Atodiad 6.

### Dadansoddiad Meintiol

Roedd yr arolwg yn cynnwys nifer o gwestiynau meintiol fel cwestiynau ie/na a graddfeydd graddio. Casglwyd a dadansodwyd yr holl ymatebion gan gynnwys y rhai a gyflwynwyd trwy e-bost neu bost gan ddefnyddio'r ddogfen ymgynghori. Mae'r rhai a ymatebodd mewn ffordd fwy cyffredinol drwy'r post neu e-bost yn cael eu cynnwys yn y dadansoddiad ansoddol yn unig.

Haenwyd ymatebion yn ôl y math o ymatebydd, er mwyn peidio â rhoi pwysau cyfartal i ymatebwyr unigol ac ymatebwyr ar ran sefydliadau (a allai gynrychioli cannoedd o unigolion o bosibl). Mae'r rhain wedi'u cyflwyno ochr yn ochr â'i gilydd yn y tablau trwy gydol yr adroddiad hwn, er mwyn helpu i weld a oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng y categorïau hyn o ymatebwyr.

Derbyniwyd nifer fach (llai na 5) o ymatebion lluosog gan yr un unigolion. Adnabuwyd y rhain trwy baru cyfeiriad e-bost ac enw. Yn yr achosion hyn, cafodd ymateb diweddaraf yr ymatebydd unigol ei gynnwys yn y dadansoddiad meintiol, a dadansodwyd yr holl ymatebion ansoddol.

Mae'r tablau yn yr adroddiad dadansoddi hwn yn cyflwyno nifer yr ymatebwyr a ddewisodd atebion gwahanol mewn ymateb i gwestiynau'r arolwg. Mae'r dadansoddiad yn dilyn yr un drefn ag y gosodwyd y cwestiynau yn yr arolwg.

Dangosir y canrannau heb leoedd degol ac fe'u talgrynnwyd i'r rhif cyfan agosaf. O ganlyniad, nid yw pob cyfanswm yn 100%. Mae'r talgrynnu hwn hefyd yn arwain at wahaniaethau o hyd at un pwynt canran wrth gyfuno dau neu ragor o gategorïau ymateb. Cynrychiolir ffigurau is nag 1% fel <1%.

Roedd pob cwestiwn yn orfodol ac roedd gan ymatebwyr yr opsiwn o ddewis 'ddim yn gwybod'.

Mae - mewn cell yn dynodi nad oes data ar gael.

## **Dadansoddiad Ansoddol**

Mae'r adroddiad dadansoddi hwn yn cynnwys dadansoddiad ansoddol o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad, gan gynnwys ymatebion arolwg ar-lein gan unigolion a sefydliadau, ymatebion e-bost a phost, a nodiadau o ddigwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Datblygwyd fframwaith codio i nodi gwahanol faterion a phynciau mewn ymatebion, i nodi patrymau yn ogystal â pha mor gyffredin roedd syniadau, ac i helpu i strwythuro ein dadansoddiad. Cafodd y fframwaith ei adeiladu o'r gwaelod i fyny trwy broses iteraidd o nodi'r hyn a ddeilliodd o'r data, yn hytrach na gorfodi fframwaith a bennwyd cyn dadansoddi'r data.

Roedd natur ansoddol yr ymatebion yma yn golygu ein bod wedi derbyn amrywiaeth o safbwyntiau, a rhesymeg dros y safbwyntiau hynny. Ystyriwyd ymatebion yn ofalus trwy gydol y broses ddadansoddi.

Nodwyd pa mor aml yr oedd barn benodol yn cael ei mynegi trwy godio ymatebion ysgrifenedig yn fanwl a dadansoddi adborth o'r digwyddiadau I rhanddeiliaid gan ddefnyddio'r themâu o'r fframwaith codio. Nodir pa mor aml y mynegwyd barn ymatebwyr yn yr adroddiad hwn drwy gyflwyno themâu yn ôl pa mor gyffredin yr oedden nhw. Mae'r ffordd y defnyddir termau hefyd yn nodi pa mor aml y mynegwyd safbwyntiau, er enghraifft, mae'r termau 'llawer'/'nifer fawr' yn cynrychioli'r safbwyntiau gyda'r gefnogaeth fwyaf ymhlith ymatebwyr. Mae 'rhai'/'sawl' yn nodi safbwyntiau a rennir gan nifer llai o ymatebwyr ac mae 'ychydig'/'nifer fach' yn nodi materion a godwyd gan nifer gyfyngedig o ymatebwyr yn unig. Defnyddir termau fel 'y mwyafrif'/'mwyaf' os oedd gan fwy na hanner yr ymatebwyr yr un farn. DS. Nid yw'r rhestr hon o dermau yn gynhwysfawr a defnyddir termau tebyg eraill yn y naratif.

## Atodiad 4: Proffil ymatebwyr: gan bwy y clywom

Cynhwyswyd cyfres o gwestiynau cefndir yn yr arolwg a oedd yn ceisio gwybodaeth am yr ymatebwyr, er enghraifft ym mha rinwedd yr oeddent yn ymateb i'r arolwg. Ar gyfer gweithwyr proffesiynol fferyllol, gofynnwyd cwestiynau pellach i nodi a oeddent yn fferyllwyr, yn dechnegwyr fferyllol neu'n berchnogion fferyllfeydd, ac ym mha leoliad yr oeddent yn gweithio fel arfer. Ar gyfer ymatebwyr ar ran sefydliadau, roedd cwestiwn am y math o sefydliad yr oeddent yn gweithio iddo. Mae'r tablau isod yn cyflwyno dadansoddiad o'u hymatebion.

### Categoriâu o ymatebwyr

**Tabl 13:** Ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad

Ydych chi'n ymateb (Sail: pob ymatebydd)	Cyfanswm N	Cyfanswm %
Fel unigolyn	247	87%
Ar ran sefydliad	37	13%
<b>Cyfanswm N ymatebwyr</b>	<b>284</b>	<b>100%</b>

### Proffil ymatebwyr unigol

**Tabl 14:** Gwledydd

Ble rydych chi'n byw? (Sail: pob ymatebydd)	Cyfanswm N	Cyfanswm %
Lloegr	210	85%
Yr Alban	28	11%
Cymru	7	3%
Arall	2	<1%
<b>Cyfanswm N ymatebwyr</b>	<b>247</b>	<b>100%</b>

**Tabl 15:** Mathau o ymatebwyr unigol

Ydych chi'n ymateb fel: (Sail: pob ymatebydd)	Cyfanswm N	Cyfanswm %
fferylllydd	227	92%
technegydd fferyllol	7	3%
hyfforddai fferyllol cyn-gofrestru	1	<1%
myfyriwr fferylliaeth	3	1%
aelod o'r cyhoedd	5	2%
arall	4	2%
<b>Cyfanswm N ymatebwyr</b>	<b>247</b>	<b>100%</b>

**Tabl 16:** Presgripsiynwyr

Ydych chi wedi cymhwyso fel: ( <i>Sail: fferyllwyr</i> )	Cyfanswm N	Cyfanswm %
presgripsiynydd annibynnol	110	48%
presgripsiynydd ategol	2	<1%
presgripsiynydd annibynnol ac ategol	42	19%
dim un o'r uchod	73	32%
<b>Cyfanswm N ymatebwyr</b>	<b>227</b>	<b>100%</b>

**Tabl 17:** Mathau o wasanaethau presgripsiynu

Pa fathau o wasanaethau presgripsiynu rydych chi'n eu darparu? ( <i>Sail: presgripsiynwyr</i> )	Cyfanswm N	Cyfanswm %
GIG	113	73%
Preifat	6	4%
GIG a Phreifat	17	11%
Ddim yn gweithio mewn rôl presgripsiynu ar hyn o bryd	18	12%
<b>Cyfanswm N ymatebwyr</b>	<b>154</b>	<b>100%</b>

**Tabl 18:** Presgripsiynu o bell

Ydych chi'n presgripsiynu o bell (yn cynnwys ar-lein a dros y ffôn)? ( <i>Sail: yn gweithio mewn rôl bresgripsiynu ar hyn o bryd</i> )	Cyfanswm N	Cyfanswm %
Ydw	41	30%
Nac ydw	95	70%
<b>Cyfanswm N ymatebwyr</b>	<b>136</b>	<b>100%</b>

**Tabl 19:** Perchnogion fferyllfeydd

Ydych chi'n berchen ar fferyllfeydd/yn gyflogwr? ( <i>Sail: fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol</i> )	Cyfanswm N	Cyfanswm %
Ydw	19	8%
Nac ydw	215	92%
<b>Cyfanswm N ymatebwyr</b>	<b>234</b>	<b>100%</b>

**Tabl 20:** Prif faes gwaith

Disgrifiwch yr opsiwn isod sy'n disgrifio'ch prif faes gwaith orau? ( <i>Sail: unigolion ac eithrio myfyrwyr fferylliaeth ac aelodau'r cyhoedd</i> )	Cyfanswm N	Cyfanswm %
--	------------	------------

Disgrifiwch yr opsiwn isod sy'n disgrifio'ch prif faes gwaith orau? (Sail: unigolion ac eithrio myfyrwyr fferylliaeth ac aelodau'r cyhoedd)	Cyfanswm N	Cyfanswm %
Fferyllfa gymunedol	51	21%
Fferyllfa ysbyty	89	37%
Fferyllfa carchar	2	<1%
Meddygfa teulu	47	20%
Sefydliad gofal sylfaenol	19	8%
Cartref gofal	1	<1%
Diwydiant fferyllol	4	2%
Ymchwil, addysg neu hyfforddiant	10	4%
Arall	16	7%
<b>Cyfanswm N ymatebwyr</b>	<b>239</b>	<b>100%</b>

**Tabl 21:** Maint fferyllfa gymunedol

Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'r fferyllfa gymunedol y gweithiwch ynddi orau? (Sail: unigolion yn gweithio mewn fferyllfa gymunedol)	Cyfanswm N	Cyfanswm %
Fferyllfa annibynnol (1 fferyllfa)	13	25%
Cadwyn fferyllol annibynnol (2-5 fferyllfa)	7	14%
Cadwyn fferyllol luosog fach (6-25 fferyllfa)	8	16%
Cadwyn fferyllol luosog ganolig (26-100 fferyllfa)	4	8%
Cadwyn fferyllol luosog fawr (Dros 100 o fferyllfeydd)	19	37%
<b>Cyfanswm N ymatebwyr</b>	<b>51</b>	<b>100%</b>

### Proffil ymatebwyr ar ran sefydliadau

**Tabl 22:** Sefydliadau fferyllol a rhai nad ydyn nhw'n fferyllol

Ydy eich sefydliad yn: (Sail: pob sefydliad)	Cyfanswm N	Cyfanswm %
sefydliad fferyllol	21	57%
sefydliad nad yw'n un fferyllol	16	43%
<b>Cyfanswm N of responses</b>	<b>37</b>	<b>100%</b>

**Tabl 23:** Math o sefydliad

Disgrifiwch yr opsin isod sy'n disgrifio'ch sefydliad orau (Sail: pob sefydliad)	Cyfanswm N	Cyfanswm %
Sefydliad sy'n cynrychioli cleifion neu'r cyhoedd	1	3%
Sefydliad sy'n cynrychioli gweithwyr fferyllol proffesiynol neu'r sector fferylliaeth	11	30%
Fferyllfa annibynnol (1 fferyllfa)	0	0%
Cadwyn fferyllol annibynnol (2-5 fferyllfa)	0	0%
Cadwyn fferyllol luosog fach (6-25 fferyllfa)	0	0%
Cadwyn fferyllol luosog ganolig (26-100 fferyllfa)	0	0%
Cadwyn fferyllol luosog fawr (dros 100 o fferyllfeydd)	2	5%
Sefydliad neu grŵp y GIG	11	30%
Sefydliad ymchwil, addysg neu hyfforddiant	5	14%
Adran neu sefydliad y llywodraeth	0	0%
Corff rheoleiddio	2	5%
Arall	5	14%
<b>Cyfanswm N ymatebwyr</b>	<b>37</b>	<b>100%</b>

## Cwestiynau Monitro

Casglwyd data hefyd ar nodweddion gwarchoddedig ymatebwyr, fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Defnyddiwyd ffurflen monitro cydraddoldeb y CFfC i gasglu'r wybodaeth hon, gan ddefnyddio categorïau sy'n cyd-fynd â'r cyfrifiad, neu arfer dda arall (er enghraifft ar fonitro cyfeiriadedd rhywiol). Nid oedd y cwestiynau monitro wedi'u cysylltu â chwestiynau'r ymgynghoriad a gofynnwyd nhw er mwyn ein helpu i ddeall proffil yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad, a rhoi sicrwydd bod croestoriad eang o'r boblogaeth wedi'i gynnwys yn yr ymarfer ymgynghori. Mae asesiad ar wahân wedi ei gynnal ar effaith ar gydraddoldeb, a bydd yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad dadansoddi hwn.

## Atodiad 5: Sefydliadau

Bu'r sefydliadau canlynol yn ymwneud â'r ymgynghoriad drwy'r arolwg ar-lein ac ymatebion e-bost:

Ayrshire and Arran Pharmacy Professional Committee

Bolton CCG

Boots UK

British Medical Association/ Cymdeithas Feddygol Prydain

Care Quality Commission/Comisiwn Ansawdd Gofal (Medicines Optimisation Team)

Chief Pharmaceutical Officer's (CPhO) 2018/19 clinical fellows

Christian Medical Fellowship

Community Pharmacy Scotland

Community Pharmacy Wales/Fferyllfa Gymunedol Cymru

CPGUK

General Medical Council (GMC)/Cyngor Meddygol Cyffredinol

Greater Glasgow and Clyde Area Pharmaceutical Committee

Guild of Healthcare Pharmacists

Health Education England

Home Health UK Ltd

Joint Council of Cosmetic Practitioners (JCCP)

Leeds Teaching Hospitals NHS Trust

LGBT Foundation

Manchester University NHS Foundation Trust

National Pharmacy Association (NPA)

NHS Education for Scotland (Pharmacy)

NHS England

NHS Forth Valley

NHS Lothian

North East and Yorkshire and Humber Non-Medical Prescribing Networks

Northumbria Healthcare NHS Foundation Trust

Pharmaceutical Services Negotiating Committee

Pharmacists' Defence Association (PDA)

Pharmacy Forum NI

Professional Standards Authority (PSA)/Awdurdod Safonau Proffesiynol

Rowlands Pharmacy

Royal National Orthopaedic Hospital NHS Trust  
Royal Pharmaceutical Society/Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol  
Save Face  
South West NMP Leads Network  
Swansea University/Prifysgol Abertawe  
Tees Esk and Wear Valleys NHSFT  
The Company Chemists' Association Ltd  
The University of Manchester  
University of Bath  
University of Bradford  
Wandsworth CCG



## Atodiad 6: Cwestiynau'r ymgynghoriad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â chanllawiau drafft i gefnogi presgripsiynwyr fferyllol i gyrraedd ein safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol, ac i sicrhau eu bod yn darparu gofal diogel ac effeithiol wrth bresgripsiynu. Yn fwy penodol rydym yn gofyn am farn ar:

- y prif feysydd ar gyfer presgripsiynu diogel ac effeithiol
- yr hyn y mae'n rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol ei wneud i bresgripsiynu'n ddiogel
- presgripsiynu a chyflenwi
- mesurau diogelwch wrth bresgripsiynu rhai categorïau penodol o feddyginiaethau o bell, a'r
- effaith y gallai'r canllawiau hyn ei chael ar amrywiol grwpiau rhanddeiliaid

### Prif feysydd ar gyfer presgripsiynu'n ddiogel ac effeithiol

Wrth ddatblygu'r canllaw hwn, rydym wedi nodi naw maes allweddol sy'n ymwneud â darparu presgripsiynu diogel ac effeithiol.

#### 1. Ydyn ni wedi nodi'r holl feysydd angenrheidiol ar gyfer sicrhau bod gofal diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu?

- Ydyn
- Nac ydyn
- Ddim yn gwybod

#### 2. Ar gyfer pob un o'r naw maes allweddol, ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canllawiau rydyn ni wedi'u cynnig?

- derbyn cyfrifoldeb am bresgripsiynu'n ddiogel
- diweddarau gwybodaeth a phresgripsiynu o fewn lefel eu cymhwysedd
- gweithio mewn partneriaeth â phobl sy'n ceisio gofal a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill
- presgripsiynu mewn rhai amgylchiadau penodol
- presgripsiynu cynnyrch meddyginiaethol cosmetig nad ydynt yn llawfeddygol
- presgripsiynu o bell
- mesurau diogelwch ar gyfer presgripsiynu rhai meddyginiaethau o bell
- mynegi pryderon
- gwybodaeth i berchnogion fferyllfeydd a chyflogwyr presgripsiynwyr fferyllol

#### 3. Esboniwch eich ymatebion i'r ddau gwestiwn uchod. (Gofynnir cwestiynau ichi yn nes ymlaen yn yr ymgynghoriad ynghylch yr hyn y mae'n rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol ei wneud i bresgripsiynu'n ddiogel, ac i bresgripsiynu a chyflenwi; ac am y mesurau diogelwch ar gyfer presgripsiynu o bell)

### Presgripsiynu'n ddiogel

Yn adran 3.1 ein cynigion dywedwn fod cael yr holl wybodaeth feddygol berthnasol am berson a'i feddyginiaethau yn hanfodol er mwyn sicrhau presgripsiynu diogel. Gellir cael hyn trwy gyfathrebu â phresgripsiynydd arferol yr unigolyn neu drwy gael mynediad at gofnodion meddygol yr unigolyn.

Rydym yn darparu arweiniad ar yr hyn y mae'n rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol ei wneud er mwyn presgripsiynu'n ddiogel, gan gynnwys:

- gofyn am gydsyniad y presgripsiynydd arferol i gael mynediad at gofnodion meddygol unigolyn
- rhoi gwybodaeth glir i'r person sy'n derbyn gofal fel y gall wneud penderfyniad gwybodus, a
- thrafod opsiynau eraill sydd ar gael pan nad yw'n briodol presgripsiynu

Rydym hefyd yn disgrifio amgylchiadau lle mae'n rhaid i bresgripsiynwyr fferyllol benderfynu a allant bresgripsiynu'n ddiogel, megis pan:

- nad oes ganddynt fynediad at gofnodion meddygol yr unigolyn
- fo'r person yn gwrthod rhoi caniatâd i gysylltu â'i bresgripsiynydd i gael mwy o wybodaeth
- nad yw'r person wedi cael ei atgyfeirio at bresgripsiynydd fferyllol gan ei bresgripsiynydd ei hun, neu
- nad oes gan yr unigolyn bresgripsiynydd arferol (fel meddyg teulu)

**4. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y rhain yn amgylchiadau pan fo'n rhaid i bresgripsiynydd fferyllol benderfynu a all bresgripsiynu'n ddiogel i berson?**

- Cytuno
- Anghytuno
- Ddim yn gwybod

**5. Oes unrhyw amgylchiadau eraill pan fydd yn rhaid i bresgripsiynydd fferyllol benderfynu a all bresgripsiynu'n ddiogel i berson?**

- Oes
- Nac oes
- Ddim yn gwybod

**6. Esboniwch eich ymatebion i'r ddau gwestiwn uchod a disgrifiwch unrhyw amgylchiadau ychwanegol y dylid eu hystyried.**

## Presgripsiynu a chyflenwi

Yn adran 4.2 ein cynigion dywedwn y dylai presgripsiynwyr fferyllol fel arfer gadw'r presgripsiynu cychwynnol ar wahân i'r cyflenwad o feddyginiaethau a bresgripsiynir, er mwyn amddiffyn diogelwch yr unigolyn. Rydym yn disgrifio amgylchiadau eithriadol pan fydd angen presgripsiynu a chyflenwi, ac rydym hefyd wedi nodi rhai amgylchiadau pan all presgripsiynydd fferyllol bresgripsiynu a chyflenwi'n rheolaidd - er enghraifft, wrth weinyddu brechlynnau teithio.

**7. Oes unrhyw amgylchiadau eraill lle credwch y dylai presgripsiynydd fferyllol allu presgripsiynu a chyflenwi?**

- Oes
- Nac oes
- Ddim yn gwybod

**8. Disgrifiwch unrhyw amgylchiadau ychwanegol y dylid eu hystyried.**

## Mesurau diogelwch ar gyfer presgripsiynu rhai categorïau penodol o feddyginiaethau

Yn adran 7 ein cynigion rydym yn disgrifio presgripsiynu o bell, gan gynnwys ar-lein, ar gyfer rhai categorïau o feddyginiaethau. Dywedwn fod rhai meddyginiaethau yn anaddas eu presgripsiynu o bell oni bai bod mesurau diogelwch pellach wedi'u rhoi ar waith i sicrhau eu bod yn glinigol briodol. Yn ein papur trafod diweddar ar ein canllawiau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig sy'n darparu gwasanaethau fferyllol o bell, gan gynnwys ar y rhyngwrwyd, roedd ymatebwyr yn cytuno y dylid rhoi mesurau diogelwch

ychwanegol ar waith i sicrhau bod y meddyginiaethau'n glinigol briodol i'r unigolyn cyn presgripsiynu o bell . Rydym wedi cynnig pum mesur diogelwch i sicrhau bod rhai categorïau o feddyginiaethau yn cael eu presgripsiynu'n ddiogel. Mae'r rhain yn dweud bod yn rhaid i'r presgripsiynydd:

- fod â phrosesau cadarn ar waith i wirio hunaniaeth, i sicrhau bod y meddyginiaethau a bresgripsiynir yn mynd at y person iawn
- wedi gofyn i'r unigolyn am fanylion cyswllt eu presgripsiynydd arferol, fel eu meddyg teulu, ac am eu caniatâd i gysylltu â nhw ynglŷn â'r presgripsiwn
- rhannu'r holl wybodaeth berthnasol am y presgripsiwn yn rhagweithiol gyda gweithwyr iechyd proffesiynol eraill sy'n ymwneud â gofal yr unigolyn (er enghraifft eu meddyg teulu)
- bod â systemau ar waith fel y gall y tîm fferyllol gofnodi'n glir benderfyniad y presgripsiynydd i roi presgripsiwn, os nad oes gan yr unigolyn bresgripsiynydd arferol, fel meddyg teulu, neu os nad oes caniatâd i rannu gwybodaeth
- gweithio o fewn canllawiau presgripsiynu cenedlaethol ar gyfer y DU a chanllawiau arfer dda

**9. Oes unrhyw fesurau diogelwch eraill y dylid eu rhoi ar waith i sicrhau bod rhai meddyginiaethau yn cael eu presgripsiynu'n ddiogel o bell?**

- Oes
- Nac oes
- Ddim yn gwybod

**10. Disgrifiwch unrhyw fesurau diogelwch ychwanegol y credwch y dylid eu cael.**

### **Effaith y cynigion**

Rydym yn awyddus i glywed barn am effaith y canllawiau drafft.

**11. Yn eich barn chi, pa fath o effaith y bydd ein cynigion yn ei chael ar gleifion a'r cyhoedd?**

- Effaith gadarnhaol
- Effaith negyddol
- Effaith gadarnhaol a negyddol
- Dim effaith
- Ddim yn gwybod

**12. Yn eich barn chi, pa fath o effaith y bydd ein cynigion yn ei chael ar bresgripsiynwyr fferyllol?**

- Effaith gadarnhaol
- Effaith negyddol
- Effaith gadarnhaol a negyddol
- Dim effaith
- Ddim yn gwybod

**13. Yn eich barn chi, pa fath o effaith y bydd ein cynigion yn ei chael ar weithwyr fferyllol proffesiynol eraill?**

- Effaith gadarnhaol
- Effaith negyddol
- Effaith gadarnhaol a negyddol
- Dim effaith
- Ddim yn gwybod

**15. Rhowch sylwadau yn egluro'ch ymatebion i gwestiynau 11 i 14.**

## Effaith ar gydraddoldeb

Rydym am ddeall a all ein cynigion wahaniaethu yn erbyn neu roi anfantais anfwriadol i unrhyw unigolion neu grwpiau sy'n rhannu unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

**16. Ydych chi'n meddwl y bydd ein cynigion yn cael effaith negyddol ar rai unigolion neu grwpiau sy'n rhannu unrhyw un neu rai o'r nodweddion gwarchoddedig a restrir isod? (Ticiwch bopeth sy'n berthnasol)**

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Dim un o'r uchod

**17. Ydych chi'n meddwl y bydd ein cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar rai unigolion neu grwpiau sy'n rhannu unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig a restrir isod? (Ticiwch bopeth sy'n berthnasol)**

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Dim un o'r uchod

**18. Disgrifiwch yr effaith ar bob un o'r unigolion neu'r grwpiau rydych chi wedi'u ticio yng nghwestiynau 16 a 17.**